RHAN 3.2

Y CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

MYNEGAI

	Rhif Tud.
RHAGARWEINIAD A PHWERAU'R PRIF WEITHREDWR A'R HOLL GYFARWYDDWYR	**3**
ADRAN Y PRIF WEITHREDWR	**12**
GWASANAETHAU CORFFORAETHOL	**20**
GWASANAETHAU CYMUNEDOL	**27**
YR AMGYLCHEDD	**61**
ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT	**73**

1. CYFLWYNIAD

Cynhelir y Cynllun Dirprwyo hwn o dan Adran 100G o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n rhestru'r swyddogaethau a ddirprwywyd i swyddogion penodol naill ai gan y Cyngor neu gan y Cabinet. Dirprwyir y swyddogaethau hyn i swyddogion gan y Cyngor yn unol ag Adrannau 101 a 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a chan y Cabinet yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Awdurdodir yr holl gyfarwyddwyr i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu mewn modd priodol y swyddogaethau y maent hwy'n gyfrifol amdanynt.

1.1 Gall y swyddogion a ddisgrifir yn y Cynllun hwn awdurdodi swyddogion yn eu Hadran/maes gwasanaeth i ymarfer y swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt hwy ar eu rhan. Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn rhinwedd yr awdurdodiad hwn yn aros yn gyfrifoldeb y swyddog a ddisgrifir yn y Cynllun hwn, a rhaid eu cymryd yn enw'r swyddog hwnnw, a fydd yn parhau'n atebol ac yn gyfrifol am y cyfryw benderfyniadau. Rhaid i bob adran gadw cofnod o'r dirprwyo pellach hwn.

1.2 Mae'r Cynllun yn dirprwyo pwerau a dyletswyddau o fewn disgrifiadau swyddogaethol cyffredinol, ac yn cynnwys pwerau a dyletswyddau o dan holl ddeddfwriaeth y presennol a'r dyfodol o fewn y disgrifiadau hynny. Mae unrhyw gyfeiriad at statud benodol yn cynnwys unrhyw estyniad neu newid statudol neu ail-ddeddfu'r cyfryw statud ac unrhyw reoliadau, orchmynion neu is-ddeddfau a wneir oddi tani.

1.3 Wrth ymarfer pwerau dirprwyedig rhaid i swyddogion gydymffurfio â'r canlynol:

1.3.1 Unrhyw ddarpariaethau statudol;

1.3.2 Cyfansoddiad y Cyngor;

1.3.3 Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor;

1.3.4 Côd Ymddygiad y Swyddogion;

1.3.5 Y Côd Ymarfer a Argymhellir mewn perthynas â chyhoeddusrwydd awdurdod lleol yng Nghymru;

1.3.6 Y trefniadau cytunedig ar gyfer cofnodi penderfyniadau;

1.3.7 Derbyn cyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol priodol arall pan fo angen;

1.3.8 Egwyddorion Gwerth Gorau gan ddefnyddio'r modd mwyaf effeithiol ac effeithlon sydd ar gael;

1.3.9. Yr angen am ymgynghori â phobl neu gynrychiolwyr pobl y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt, yn cynnwys aelod y ward leol lle bo hynny'n briodol.

1.4 Nid yw'r Cynllun yn dirprwyo unrhyw fater:

1.4.1 sydd yn cael ei neilltuo i'r Cyngor llawn yn ôl y gyfraith neu gan y Cyfansoddiad hwn; neu

1.4.2 na ellir yn ôl y gyfraith ei ddirprwyo i swyddog.

1.5 Mae'r Cynllun yn gosod rhwymedigaeth ar swyddogion i sicrhau yr hysbysir yr aelod(au) priodol fel y dylid am unrhyw benderfyniadau a wneir yn unol â'r pwerau dirprwyedig hyn.

Lle bo swyddog yn gwneud penderfyniad pwysig ar sail pŵer a ddirprwywyd o'r Cabinet, rhaid i'r penderfyniad hwnnw gael ei gofnodi a'i ddarparu ar gais i'r pwyllgorau trosolwg a chraffu, cynghorwyr unigol a'r cyhoedd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol i wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol.

1.6 Mae'n agored bob amser i'r Cabinet neu unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor fel bo'n briodol wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw fater sy'n perthyn o fewn pŵer dirprwyedig swyddog, cyhyd â bod y mater o fewn eu cylch gwaith.

1.7 Os yw'r cam yn gofyn am wariant, gweithredir ar yr amod bod darpariaeth ariannol wedi ei chynnwys yng nghyllideb gymeradwy'r Cyngor ac y cydymffurfir â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

1.8 Bydd y Cabinet yn adolygu gweithrediad cyffredinol y Cynllun Dirprwyo hwn fel bo angen o bryd i'w gilydd a bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw amrywiad neu newid iddo.

1.9 Os newidir teitl swyddog o'r hyn a ddangosir oherwydd ad-drefnu trefniadau adrannol neu am unrhyw reswm arall, bydd modd i'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol sy'n gyfrifol am y swyddogaeth dan sylw, fel sy'n berthnasol, ymarfer y pwerau a'r dyletswyddau dirprwyedig.

1.10 Wrth ymarfer y pwerau dirprwyedig hyn bydd gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth dan sylw ryddid cyffredinol, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac â Chyfansoddiad y Cyngor, Rheolau Gweithdrefn a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a pholisi'r Cyngor yn gyffredinol, i ddefnyddio'r dull mwyaf effeithiol ac effeithlon sydd ar gael, gan gynnwys adleoli staff ac adnoddau eraill o dan eu rheolaeth a chaffael adnoddau eraill y mae eu hangen, boed hynny y tu mewn i'r Cyngor neu y tu allan iddo.

1.11 Rhaid i swyddogion weithredu fel eu bod yn cyflawni polisïau ac amcanion eu maes gwasanaeth ar gyfer eu gwasanaeth, gan barchu buddiannau corfforaethol cyffredinol y Cyngor bob amser.

1.12 Wrth ymarfer pwerau dirprwyedig, rhaid i swyddogion ymgynghori â swyddogion eraill fel y bo'n briodol a rhoi ystyriaeth i unrhyw gyngor a roddir.

1.13 Bydd swyddog yn rhydd bob amser i gysylltu ag Aelod Cabinet, â Phwyllgor, neu ei Gadeirydd neu Is-gadeirydd cyn ymarfer ei bwerau dirprwyedig. Lle bydd mater penodol dan awdurdod dirprwyedig yn destun pryder i'r swyddog (neu i'r Aelod Cabinet neu'r Cadeirydd perthnasol), dylai fod yn destun adroddiad i'r Aelod Cabinet perthnasol neu i'r Cabinet neu'r Pwyllgor.

PWERAU DIRPRWYEDIG I'R PRIF WEITHREDWR A'R HOLL GYFARWYDDWYR

Pwerau Cyffredinol

- Penderfynu ar bob mater nad yw'n ofynnol i'r Cyngor na'r Cabinet eu hystyried neu nad yw wedi ei gyfeirio at bwyllgor neu is-bwyllgor ar gyfer penderfyniad.
- Penderfynu ar unrhyw fater brys yn y meysydd sydd dan ofal y Cyngor, y Cabinet neu unrhyw bwyllgor lle mae'n anymarferol galw cyfarfod o'r corff hwnnw i ystyried y mater.
- Cyflwyno ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 neu unrhyw ddeddfwriaeth galluogi arall. Dirprwyir y pŵer hwn hefyd i bob Pennaeth Gwasanaeth.
- Cymeradwyo tendrau neu ddyfarnu contractau o fewn telerau Rheolau Gweithdrefn Contractau neu Reoliadau Ariannol y Cyngor.
- Mewn unrhyw anghydfod neu achos cyfreithiol, bod ag awdurdod i gymryd pob cam gweithredu yng nghyswllt yr anghydfodau neu'r achosion hynny ac i erlyn, dilyn, amddiffyn, apelio, rhoi'r gorau i'r anghydfodau neu'r achosion hynny neu eu setlo, yn unol â chyngor Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.
- Mynd i wariant neu gymryd unrhyw gam arall wrth redeg gwaith beunyddiol y Cyngor yn unol â chyllidebau cymeradwy unrhyw faes gwasanaeth.
- Pennu'r holl ffïoedd a thaliadau, gan ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol.
- Cymeradwyo argymhellion drafft a geir yn adroddiadau Ombwdsmyn.

Cymryd camau ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol yn achos unrhyw fater brys lle nad oes modd cael awdurdodiad ymlaen llaw:

- Lle mae perygl difrifol y bydd costau sylweddol i'r Cyngor a cholli incwm o ganlyniad i beidio â chymryd camau ar unwaith;
- Lle mae perygl difrifol y bydd eiddo neu staff y Cyngor neu unigolion sydd yn ei ofal neu y mae ef/hi yn gyfrifol amdanynt yn dioddef niwed/difrod;
- Lle mae argyfwng neu drychineb yn digwydd sy'n golygu bod bywyd neu eiddo yn cael neu ar fin cael ei ddifrodi neu ei beryglu, neu bod sail rhesymol dros ofni argyfwng neu drychineb o'r fath a bod y cyfryw gamau wedi'u cynllunio i osgoi, lliniaru neu ddiddymu effeithiau neu effeithiau posibl y digwyddiad.

Achosion Cyfreithiol

Cychwyn achosion cyfreithiol a gorfodi deddfwriaeth y gall ef/hi fod yn gyfrifol o bryd i'w gilydd am ei gorfodi. Dyroddi a chyflwyno rhybuddion statudol ac eraill, dyroddi rhybuddion ffurfiol, cymryd camau diofyn o dan yr holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'w maes swyddogaethol ac awdurdodi swyddogion i ymddangos ar ran y Cyngor gerbron llysoedd, tribiwnlysoedd, byrddau adolygu ac ymchwiliadau, a hefyd i lofnodi'r holl ddogfennau angenrheidiol ac awdurdodi mynediad i dir yn unol â phwerau statudol.

Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac Anghydfodau Cyflogaeth

Cymeradwyo cytundebau setliadau yng nghyswllt unrhyw anghydfod cyflogaeth, fel y cynghorir gan Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad).

Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Bod yn gyfrifol am yr holl faterion Iechyd a Diogelwch yn y gwaith a ddiffinnir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Trefniadau Gweithredu.

Bydd hawl gan y Prif Weithredwr i benderfynu ar unrhyw fater a fyddai fel arall yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr os bydd y swyddog hwnnw'n absennol neu yn gwrthod cyflawni pwerau dirprwyedig penodol.

Swyddogaethau Swyddog Priodol

Dirprwyir swyddogaethau Swyddog Priodol fel a ganlyn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:-

- Llofnodi gwysion i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau - **Y Prif Weithredwr**.
- Adran 88 - cynnull cyfarfod o'r Cyngor i lenwi swydd achlysurol Cadeirydd y Cyngor - **Y Prif Weithredwr**.
- Adran 100(B)(2) - eithrio adroddiadau neu rannau o adroddiadau o hawl y cyhoedd i'w harchwilio - **Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**.
- Adran 225 – derbyn a chadw dogfennau ar adnau - **Y Prif Weithredwr**.
- Adran 229(5) – ardystio dogfennau - **Y Prif Weithredwr**.
- Yn achos pob mater sy'n codi o Ran VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Mynediad at Wybodaeth) neu Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 - **Y Prif Weithredwr.**

Swyddogaethau eraill swyddog priodol:

- Dyroddi penderfyniadau, caniatâd, trwyddedau neu hysbysiadau o fewn Cylch Gwaith y Pwyllgor Cynllunio - **Cyfarwyddwr yr Amgylchedd** neu'r **Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.**
- Dyroddi penderfyniadau, caniatâd, trwyddedau neu hysbysiadau ar ran y Cyngor - **Y Prif Weithredwr** neu unrhyw **Gyfarwyddwr** neu **Bennaeth Gwasanaeth** perthnasol.
- Llofnodi unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â thir ar ran y Cyngor - **Y Prif Weithredwr** neu **Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**.
- Ardystio Sêl Gyffredin y Cyngor fel swyddog a awdurdodwyd o dan Reolau Sefydlog y Cyngor - **Y Prif Weithredwr** neu **Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**.
- Llofnodi unrhyw ddogfennau cytundebol sy'n ymwneud ag unrhyw fater ar ran y Cyngor - **Y Prif Weithredwr**, **Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** neu unrhyw **Gyfarwyddwr** neu **Bennaeth Gwasanaeth** perthnasol, cyhyd â bod y swyddog hwnnw (fel sy'n briodol) yn cynghori ac yn sicrhau cymeradwyaeth **Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** ynghylch y bwriad i lofnodi'r cyfryw ddogfen ymlaen llaw.

- Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau - **Y Prif Weithredwr**.
- Derbyn datganiadau yn derbyn Swydd gan Gynghorwyr Sir ac Aelodau Cyfetholedig o Bwyllgorau'r Cyngor - **Y Prif Weithredwr** a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**.

- Yng nghyswllt unrhyw swyddogaeth arall o eiddo swyddogion priodol nad yw wedi'i dyrannu i swyddogion eraill - **Y Prif Weithredwr** a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**.

Staffio

Penderfynu'r holl faterion yn ymwneud â staffio, strwythurau, cyflogaeth, amodau gwasanaeth, datblygiad a lles gweithwyr y Cyngor Sir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ac Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol a Lleol.

Penodiadau

Gwneud penodiadau o fewn y sefydliad awdurdodedig, ac eithrio mewn perthynas â Phenaethiaid Gwasanaeth, yn unol â pholisïau priodol o ran Recriwtio a Dethol, y Swyddfa Cofnodion Troseddol, y Cynllun Iaith a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor Sir.

Pennu'r cyflogau cychwynnol o fewn gradd neu raddau swydd gan roi sylw i gyflog cyfartal, cymwysterau a phrofiad, yn amodol ar gymeradwyaeth y **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Graddio Swyddi

Bydd yr holl raddau swyddi yn cael eu pennu gan y **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)** gan ddefnyddio'r drefn gydnabyddedig ar gyfer gwerthuso swyddi.

Cymeradwyo symud ymlaen y tu hwnt i far graddfa ar yr amod bod deilydd y swydd yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol.

Awdurdodi ychwanegu cynyddrannau'n gynt oddi mewn i raddfa swyddog ar sail teilyngdod neu allu arbennig, cyhyd ag nad eir dros uchafswm y raddfa, mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Strwythurau/Swyddi Staff

Cymeradwyo newidiadau yn strwythurau eu hadrannau lle mae hynny o fewn cyllidebau awdurdodedig yn unol â holl Bolisïau a Gweithdrefnau perthnasol Adnoddau Dynol y Cyngor Sir, yn dilyn cytundeb gyda'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)** lle sefydlwyd achos busnes.

Cymeradwyo dileu swyddi neu greu swyddi newydd ar yr amod bod y **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)** yn cymeradwyo'r radd a'r amodau gwasanaeth.

Trefniadau Gwaith Amgen

Datblygu a gweithredu trefniadau gwaith amgen yn unol â datblygiadau corfforaethol ac ar ôl ymgynghori â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Penderfynu ar secondiadau mewnol neu ryngadrannol lle mae hynny'n fanteisiol o safbwynt gweithrediadau mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Cytuno ar secondiadau allanol i gyrff partner cydnabyddedig, yn amodol ar hwylustod gweithrediadol.

Staff Dros Dro

Cyflogi staff dros dro neu achlysurol i gymryd lle y staff hynny sy'n absennol oherwydd salwch tymor hir, cyfnod mamolaeth ac ati, mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Cyflogi staff dros dro neu achlysurol yn ychwanegol at y sefydliad awdurdodedig i fodloni anghenion eithriadol am gyfnod hyd at ddeuddeng mis, yn amodol ar y Polisi Recriwtio a Dethol ac mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr Cynorthwyol **(Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Cymeradwyo creu swyddi dros dro sydd yn cael eu hariannu'n llawn gan asiantaethau allanol, e.e. Adrannau'r Llywodraeth, y Senedd, Llywodraeth Cymru ac ati, mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Bydd yr uchod yn amodol ar werthuso graddau ac amodau gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad).

Absenoldeb â Chaniatâd

Caniatáu absenoldeb, absenoldeb arbennig â chyflog neu heb gyflog ac absenoldeb heb gyflog i rieni yn unol â'r Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol fel yr ychwanegwyd atynt gan Bolisïau a Gweithdrefnau Amodau Gwasanaeth Lleol.

Absenoldeb Tosturiol

Yn ôl disgresiwn y Prif Swyddog gellir ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer absenoldeb tosturiol ym mhob achos o farwolaeth neu salwch difrifol aelod agos o'r teulu o dri diwrnod o absenoldeb â chyflog i bum niwrnod o absenoldeb â chyflog.

Awdurdod i ganiatáu absenoldeb heb gyflog am resymau tosturiol hyd at dri mis.

Taliadau am Ddyletswyddau Ychwanegol

Cymeradwyo a phrosesu ar gyfer talu Honoraria neu Lwfansau Uwch i Swyddogion sy'n ymgymryd â dyletswyddau graddfa uwch dros dro, yn amodol ar ymgynghori â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Lwfansau Adleoli a Theithio Ychwanegol

Awdurdodi talu lwfansau adleoli a theithio ychwanegol i weithwyr a benodwyd i swyddi parhaol yn unol â'r Amodau Gwasanaeth Lleol.

Hyfforddiant Ôl-fynediad

Awdurdodi gweithwyr i fynychu cyrsiau astudio ac awdurdodi talu ffioedd cyrsiau ac ati yn unol â chynllun hyfforddiant ôl-fynediad yr Awdurdod.

Dyrannu Ceir/Ffonau

Cymeradwyo dyraniadau ceir/ffonau mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Disgyblu

Cychwyn trefn atal gweithwyr yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r Awdurdod neu Reolau Disgyblu Cyd-bwyllgor Trafod Telerau y Prif Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Terfynu cyflogaeth unigolyn gyda'r Awdurdod yn dilyn Gwrandawiadau Disgyblu Swyddogion neu Wrandawiadau Apêl Aelodau, ar yr amod bod y **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)** yn ymwneud â hynny fel y nodir ym Mholisïau a Gweithdrefnau'r Amodau Gwasanaeth Lleol.

Ymholiadau gan y Wasg a’r Cyfryngau

Y Cyfarwyddwr fydd swyddog enwebedig yr Adran mewn perthynas ag ymholiadau strategol gan y wasg a’r cyfryngau a’r Penaethiaid Gwasanaeth fydd swyddogion enwebedig yr adran mewn perthynas â materion yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau.

ADRAN Y PRIF WEITHREDWR

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am y swyddogaethol canlynol:

Cyffredinol

- cyfeiriad a rheolaeth strategol y Cyngor;
- y modd y cyflawnir gwahanol swyddogaethau'r Cyngor;
- nifer a graddfeydd y staff y mae ar y Cyngor eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau;
- trefnu, penodi a rheoli staff y Cyngor mewn modd priodol;
- gweithredu fel Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Seneddol;
- newid ffioedd etholiadol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol yn dilyn dyfarniad cyflog y Cyd-bwyllgor Cenedlaethol neu adolygiad o'r ffioedd perthnasol gan y Swyddfa Gartref;
- y pwerau a'r dyletswyddau hynny sy'n gysylltiedig â swyddogaethau etholiadol a ddirprwyir i Bennaeth y Gwasanaeth Taledig gan y Cyngor, fel y nodir yn rhan D o dabl 1 yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn;
- mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cymeradwyo absenoldeb aelodau ar ran y Cyngor Sir lle bo'r rheswm yn gysylltiedig ag afiechyd. (Fodd bynnag, yn achos aelod sydd wedi bod yn absennol am gyfnod o 12 mis ers caniatáu'r absenoldeb, bod y sefyllfa'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ystyriaeth.)

Materion Staffio

Cymeradwyo a llofnodi Tystysgrifau Barn i'w cyflwyno gyda cheisiadau i'r Dyfarnwr Annibynnol er mwyn eithrio swyddogion o'r rheolau cyfyngiad gwleidyddol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Estyn Cynllun Terfynu Swyddi Statws Unffurf y Cyngor y tu hwnt i 31ain Mawrth 2013, os bydd angen.

Panel Ymchwilio

Penodi, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol, 5 aelod i wasanaethu ar y Panel Ymchwilio ar gyfer materion y Cyd-bwyllgor Trafod Telerau yn ymwneud â disgyblu Swyddogion.

Datganiad Blynyddol o Reolaeth Fewnol

Gweithredu fel Swyddog y Cyngor a enwebwyd i lofnodi'r Datganiad Blynyddol o Reolaeth Fewnol yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio.

Gorchymyn Gwasgaru

Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr o ran Gorchmynion Gwasgaru.

Dyddiadur Cyfarfodydd y Cyngor

Paratoi rhaglen y Cyngor o gyfarfodydd cyffredin a'i rhoi ar waith.

Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig

Awdurdod dirprwyedig mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i gymeradwyo ac i gyhoeddi atodlen y Cyngor o'r taliadau cydnabyddiaeth i'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig.

Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005

Awdurdod dirprwyedig i gyflwyno sylwadau ar ran y Cyngor yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod cyfrifol.

PWERAU A DDIRPRWYWYD I BENNAETH GWEINYDDIAETH A'R GYFRAITH

Rhaid awdurdodi Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i ymarfer y swyddogaethau canlynol:

Swyddog Monitro

Bod yn Swyddog Monitro i'r Cyngor Sir yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gyda phŵer i ddynodi swyddog arall i weithredu fel Swyddog Monitro yn ei absenoldeb.

Bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau Cam 2 ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed.

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

Gweithredu fel Pennaeth Proffesiwn ar gyfer swyddogaethau cyfreithiol.

Cytundebau a Chontractau Cyfreithiol (ac eithrio tir)

Llofnodi neu ardystio sêl y Cyngor Sir yng nghyswllt unrhyw gontract neu gytundeb cyfreithiol.

Cytundebau a Chontractau Cyfreithiol cysylltiedig â Thir

Llofnodi cytundebau yn ymwneud â'r holl drafodion tir, a hefyd awdurdod i ddirprwyo'r pŵer hwnnw i swyddogion unigol mewn adrannau neu feysydd gwasanaeth eraill yn unol â'r telerau a'r amodau a bennir.

Cyfreitha

Amddiffyn neu drefnu amddiffyniad ar gyfer unrhyw gamau gweithredu, hawliadau neu achosion a ddygir yn erbyn y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw wariant angenrheidiol yng nghyswllt y prosesau cyfreithiol dan sylw gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) gwariant yng nghyswllt cadw ymgynghorwyr allanol yn cynnwys Cwnsler, arbenigwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol allanol, a setlo hawliadau am iawndal (gan gynnwys gwneud taliadau i'r Llys lle bo angen), yn amodol ar ymgynghori â chyfarwyddwr y gwasanaeth priodol lle bo amser yn caniatáu, gydag adroddiad ar y camau a gymerwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr **Aelod Cabinet** priodol lle bo cyfanswm y setliad yn fwy na £100,000. Cytuno ar y swm a thalu costau cyfreithiol hawlydd yng nghyswllt hawliadau sy'n cael eu setlo hyd at £30,000 mewn perthynas ag unrhyw un hawliad.

Awdurdodi talu iawndal a chostau cyfreithiol sy'n codi o ganlyniad i Orchymyn Llys yn erbyn y Cyngor, sef y swm neu'r symiau a bennir yn y Gorchymyn Llys.

Cychwyn unrhyw achos cyfreithiol er mwyn hyrwyddo swyddogaethau'r Cyngor, gan gynnwys achos ar gyfer gwaharddeb, lle bo angen dechrau'r cyfryw achos ar frys er mwyn atal perygl neu niwed i staff y Cyngor neu'r cyhoedd, amddiffyn tir ac eiddo'r Cyngor, cynnal gwasanaethau hanfodol, neu gyflawni unrhyw ddiben arall lle bydd perygl difrifol i'r Cyngor neu i'r cyhoedd os na chymerir y cyfryw gamau, a setlo achosion o'r fath, yn amodol ar ymgynghori â chyfarwyddwr y gwasanaeth priodol, lle bo amser yn caniatáu, gydag adroddiad ar y camau a gymerwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr **Aelod Cabinet** priodol lle bo'r setliad yn fwy na £100,000.

Darparu a derbyn unrhyw ymgymeriadau neu ymdrin ag unrhyw ategolion eraill sy'n ofynnol gan y Llys yn ystod y cyfryw achos.

Setlo achosion Tribiwnlys Cyflogaeth yn amodol ar ymgynghori, lle bo amser yn caniatáu, â chyfarwyddwr y gwasanaeth priodol a'r **Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)**.

Indemniadau

Awdurdodi indemniadau lle maent yn ofynnol er mwyn i'r Cyngor allu ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau cyhyd â bod y mater yn cael ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet priodol lle gallai rhoi indemniad arwain at oblygiadau ariannol eithriadol.

Cadw Cwnsler

Gofyn am Farn Cwnsler neu gyngor arbenigol arall a chadw Cwnsler neu arbenigwyr eraill pryd bynnag y bernir bod hynny'n briodol.

Cyngor Cyfreithiol Allanol

Caffael cyngor a chymorth cyfreithiol allanol mewn perthynas ag unrhyw achos neu fater yn ymwneud â'r Cyngor Sir, neu gwmni neu bartneriaeth y mae gan y Cyngor Sir ddiddordeb ynddynt, lle bernir bod hynny'n briodol.

Costau Cyfreithiol

Setlo swm costau cyfreithiol gwerthwyr yn seiliedig ar Orchymyn Taliadau Cyfreithwyr 1972.

Hysbysiadau Malltod

Derbyn Hysbysiadau Malltod cyfreithiol rwymol a gyflwynir i'r Cyngor a chydymffurfio â gofynion Adran 150 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n gofyn bod y Cyngor yn prynu eiddo a thir, a chyflwyno Gwrthhysbysiadau lle bo angen.

Diddordeb mewn Tir

Mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddw(y)r neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol sy'n delio â'r mater y mae angen gwybodaeth amdano, cyflwyno Hysbysiadau, yn unol ag Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976, i unigolion, yn gofyn eu bod yn darparu manylion am unrhyw ddiddordeb a all fod ganddynt mewn tir.

Deddf Cyfraith Eiddo 1925

Dylai'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel**, y **Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd** a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** gychwyn y camau angenrheidiol i orfodi gwerthiant, gan gynnwys gwaredu'r eiddo.

Cofrestru Tir Comin

Ystyried a phenderfynu, ar sail eu rhinweddau cyfreithiol, ar geisiadau am gofrestru Tir Comin a Meysydd Pentrefi a gyflwynir o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965, gan gynnwys penodi arolygydd a chynnal ymchwiliad cyhoeddus pan fydd Cwnsler yn cynghori gwneud hynny.

Ymddangosiadau yn y Llys

Yn unol ag Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, erlyn, amddiffyn neu ymddangos ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin mewn achos gerbron Llys yr Ynadon
Yn unol ag Adran 60 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984, gweithredu camau ar ran y Cyngor yn y Llys Sirol er mwyn cyflawni'r ddau beth canlynol:

- adennill meddiant tai sy'n eiddo i'r Cyngor;

- adennill unrhyw rent, elw mesne, iawndal neu swm arall a hawlir gan y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sy'n meddiannu tŷ o'r fath.

Setlo Cwynion yn Lleol

Cymeradwyo argymhellion drafft a geir yn adroddiadau Ombwdsmyn.

Cymeradwyo taliadau addas a phriodol i setlo cwynion yn erbyn y Cyngor ac i setlo cwynion Ombwdsmon yn lleol, gyda thaliadau o'r fath i'w gwneud o gyllideb y gwasanaeth priodol yn dilyn ymgynghori â chyfarwyddwr y gwasanaeth dan sylw.

Rheoliadau Amddiffyn Plant yn y Gwaith 1998 (fel y'u diwygiwyd)

Cymryd yr holl gamau gweithdrefnol perthnasol i alw unrhyw gyfreithiau lleol angenrheidiol i rym.

Deddf Rheoli Traffig 2004

Ailystyried materion a gyfeirir yn ôl at y Cyngor gan y Gwasanaeth Dyfarniadau Parcio.

Paneli Apêl Ysgolion

Penodi aelodau i banel apeliadau annibynnol a fydd yn penderfynu ar y canlynol:

(a) apeliadau yn erbyn gwahardd plentyn o'r ysgol yn barhaus;
(b) apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl i ysgol;
(c) apeliadau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniadau gan neu ar ran y Cyngor i dderbyn i'r ysgol blentyn y mae Adran 87(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn gymwys iddo/iddi.

Pwerau a ddirprwywyd i'r Pennaeth Adfywio

Y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor dros ddatblygu economaidd ac adfywio, gan gynnwys cymeradwyo unrhyw grant sy'n rhan o'r swyddogaethau hyn, a chan gynnwys y swyddogaethau a ddisgrifir isod (ond heb eu cyfyngu iddynt).

Mecanwaith Cymorth Busnes/Gweithredu

Mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ystyried pob cais yn unol â meini prawf a gytunwyd.

Rhaglenni Grantiau Cysylltiedig â Busnes, Cymuned neu Adfywio

Dyfarnu grantiau hyd at uchafswm o £10,000 o dan y rhaglenni uchod.

Cronfa'r Degwm yn Nyfed

Dyfarnu grantiau o Gronfa'r Degwm.

Prisio

Derbynnir prisiad ardystiedig y Pennaeth Adfywio ar gyfer yr holl drafodion eiddo, yn amodol ar bolisi'r Cyngor o ran penderfynu a ddylid gwaredu, caffael neu brydlesu ased unigol.

Caffaeliadau

Caffael tir at unrhyw ddiben, cyhyd â bod y polisi bod angen yr eiddo yn ei le, a rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith baratoi dogfennau priodol ar gyfer unrhyw gytundeb.

Awdurdodiad mewn ymgynghoriad â'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod(au) Cabinet priodol i brynu lleiniau bychain o dir diffaith neu adeiladau adfeiliedig a allai ddatblygu'n asedion gwerthadwy yn y dyfodol (neu i'w defnyddio gan y cyngor), neu lle bydd perchenogaeth ar y tir yn golygu y gellir mynd ati i glirio'r tir er mwyn gwella'r amgylchedd. (Yn unol â chylch gwaith y Gronfa Tir Diffaith.)

Hysbysiadau

Derbyn a chyflwyno hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol neu unrhyw Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid ynghylch rheolaeth ystadau gwledig a threfol.

Cytundebau Cyfreithiol

Cwblhau Hawddfraint, Fforddfraint a chytundebau tenantiaeth a thrwyddedu, lle bo hynny'n rhan o gategori o drafodion y cytunwyd arnynt gyda Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fel rhai priodol i'w llofnodi, yn hytrach na'u gweithredu o dan sêl gyffredin y Cyngor.

Ceisiadau cynllunio

Cyflwyno ceisiadau cynllunio mewn perthynas â thir, er mwyn asesu ei botensial o ran ei ddatblygu cyn ei werthu, neu er mwyn ymgymryd â datblygiad ar ran yr Awdurdod.

Cyfeddiant Tir

Cyfeddu tir ar gyfer unrhyw bwrpas o dan ddarpariaethau Adran 122 o Ddeddf

Llywodraeth Leol 1972, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau statudol a chytundeb ysgrifenedig y Cyfarwyddwr perthnasol neu Bennaeth y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y tir cyn ei gyfeddu.

Gwaredu tir ac adeiladau

Gwaredu tir ac adeiladau nad oes eu hangen bellach ar gyfer swyddogaethau'r Cyngor, cyhyd â bod penderfyniadau ynghylch gwaredu tir ac adeiladau strategol a fydd yn cael effaith sylweddol ar weithgaredd masnachol yn cael eu neilltuo ar gyfer y Cabinet. Yn y ddau achos bydd yn rhaid ymgynghori â'r aelodau lleol.

Gwaredu rifersiynau preswylfeydd rhydd-ddaliol yn ôl yr angen.

Cytuno ar bris wrth gefn/bris gwerthu a'r dull mwyaf priodol o farchnata/gwaredu eiddo.

Cyfarwyddo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i baratoi dogfennau priodol ar gyfer unrhyw gytundeb.

Gosodiadau

Cymeradwyo ceisiadau am aseinio prydlesi a thanosod ac isosod eiddo masnachol lle na ellir yn rhesymol wrthod caniatâd ar gyfer ceisiadau o'r fath a chyfarwyddo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i baratoi'r dogfennau priodol mewn perthynas ag unrhyw ganiatâd o'r fath.

Gosod eiddo (bydd y gosodiadau'n cynnwys trwyddedau a chonsesiynau tymhorol), gyda'r eiddo hwnnw'n cynnwys eiddo masnachol, ystadau diwydiannol a gwledig, marchnadoedd da byw a nwyddau, eiddo gwag neu anweithredol ac ati, a llofnodi cytundebau ar gyfer y gosodiadau hynny lle bônt yn rhan o gategori trafodion y cytunwyd arno gan Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fel un priodol i'w lofnodi, yn hytrach na'i weithredu o dan sêl gyffredin y Cyngor.

Cyfarwyddo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i derfynu, adfeddiannu ac adennill eiddo ac unrhyw arian sy'n ddyledus.

Derbyn ildiad o'r llog presennol ac ail-ganiatáu cyfnodau gosod hwy ar delerau diwygiedig.

Cyd-drafod a chytuno ar welliannau priodol ar gyfer tenantiaid.

Meddiant Gwrthwynebus ac anghydfod ynghylch ffiniau

Cyfarwyddo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i adfeddiannu tir y tresmaswyd arno a datrys anghydfodau ynghylch ffiniau sy'n effeithio ar dir ac eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arno.

Anghydfodau

Mynd i Lysoedd, tribiwnlysoedd a gwrandawiadau datrys anghydfod eraill i ddatrys anghydfod ynghylch eiddo, yn cynnwys materion iawndal tir statudol.

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Bydd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol awdurdod dirprwyedig i ymarfer holl bwerau'r Cyngor yng nghyswllt y materion canlynol:

GWASANAETHAU CYSYLLTIEDIG Â MATERION ARIANNOL

Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai

Ymgymryd â'r canlynol:

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (oni nodir yn wahanol)

- Casglu'r Dreth Gyngor - Paragraff 1
- Penderfynu pwy sy'n atebol i dalu'r Dreth - Paragraffau 6,7
- Penderfynu ar atebolrwydd perchenogion - Paragraff 8(3)
- Penderfynu ar atebolrwydd ar y cyd ac ar wahân - Paragraffau 8,9
- Penderfynu a chaniatáu disgowntiau - Paragraff 11 Atodlen 1
- Penderfynu ar ostyngiadau ar gyfer pobl anabl - Paragraff 1
- Ystyried ac ymateb i hysbysiadau gan bersonau tramgwyddedig (ynghylch
- atebolrwydd ac unrhyw gyfrifiadau) - Paragraff 16
- Dal y Rhestr Brisio ar adnau i'w harchwilio gan y cyhoedd a darparu gwybodaeth am gynnwys rhestrau yn y gorffennol - Paragraffau 22,28
- Darparu gwybodaeth sy'n ofynnol gan y Swyddog Rhestru (Swyddog Prisio) at bwrpas cynnal y Rhestr - Paragraff 27
- Dirwyo unigolion am fethu â chyflwyno gwybodaeth neu gyflwyno gwybodaeth anghywir yn fwriadol. Atodlen 3.
- Dileu dirwyon. Atodlen 3.
- Gofyn bod unigolion a chyrff cyhoeddus yn darparu gwybodaeth.
- Cymeradwyo ceisiadau unigol am ostyngiadau yn y Dreth Gyngor yn unol â chanllawiau a gymeradwywyd.

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (fel y'u diwygiwyd)

- Hysbysu'r unigolion dan sylw am brisiad yr eiddo perthnasol.
- Darganfod a phenderfynu ar Breswylfeydd Eithriedig a rhoi gwybod i'r bobl berthnasol.
- Cyflwyno gorchmynion talu
- Cyflwyno hysbysiadau atgoffa
- Cyflwyno hysbysiadau addasu
- Casglu dirwyon
- Gwneud cais am Orchymyn Atebolrwydd
- Gwneud Gorchymyn Atodiad Enillion
- Gwneud Gorchymyn Atodiad Lwfansau

Apelio yn erbyn Prisiad y Dreth Gyngor ac Atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor

Cynrychioli'r Cyngor yng ngwrandawiadau Tribiwnlysoedd Prisio Lleol sy'n delio ag apeliadau'r Dreth Gyngor (Adran 16 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992).

Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor

Ymgymryd â'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud ag asesu, gweinyddu a thalu Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.

Taliadau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor – Taliadau Tai Dewisol a Gordaliadau Anadferadwy

Dyfarnu Taliadau Tai Dewisol mewn perthynas â Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor (Rheoliadau Cymorth Ariannol Dewisol 2001 - SI1167 a 2340).

Penderfynu ar Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor - gordaliadau anadferadwy [Rheoliad 100, Rheoliadau Budd-dal Tai (Cyffredinol)1987 a Rheoliad 85, Rheoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor (Cyffredinol) 1992].

Sieciau Budd-dal Tai

- Llofnodwyr awdurdodedig mewn perthynas â sieciau Budd-dal Tai hyd at werth o £400.
- Awdurdodiad i "agor" sieciau budd-dal tai hyd at £400.

Achosion Erlyn a Chosbau am Dwyll – Twyll Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor

Cychwyn erlyniadau mewn perthynas â thwyll budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor, yn unol â pholisi cytunedig yr awdurdod ar erlyniadau.

Gosod Rhybuddion ffurfiol neu Gosbau Gweinyddol yng nghyswllt twyll Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor.

Apeliadau Budd-dal

Cynrychioli'r Cyngor yng Ngwrandawiadau Budd-dal y Gwasanaeth Apêl [Rheoliadau Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor (Penderfyniadau ac Apeliadau) 2001].

Ymchwiliadau i Dwyll

Dyroddi Tystysgrifau Awdurdodiad i swyddogion cymwys o fewn yr Uned Ymchwilio i Dwyll, i'w galluogi i fod yn swyddogion awdurdodedig, yn unol ag Adran 109 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992.

Trethi Annomestig a Refeniw Arall

Ymgymryd â'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud ag asesu, gweinyddu, casglu ac adennill Trethi Annomestig a Mân Ddyledion sydd i'w talu i'r Awdurdod.

Gostyngiad Treth Gorfodol a Dewisol
[Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (oni nodir yn wahanol)]

I wneud y canlynol:

- Dyfarnu gostyngiad treth gorfodol i'r busnesau hynny sy'n gymwys, Adrannau 43(5) a 43(6a)

- Dyfarnu Gostyngiad Treth Gwledig yn unol â pholisi cyfredol y Cyngor. Adrannau 47(2a) a (2b) a 47(3a) a (3b)

- Dyfarnu gostyngiad dewisol priodol i sefydliadau elusennol a sefydliadau eraill nad ydynt yn gwneud elw yn unol â pholisi cyfredol y Cyngor

- Caniatáu gostyngiadau treth ar gyfer Eiddo a Feddiennir yn Rhannol yn unol â thystysgrifau'r Swyddog Prisio, Adran 44a

Achosion Adennill yn Llys yr Ynadon

Cynrychioli'r Cyngor mewn achosion yn Llys yr Ynadon ar gyfer adennill y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig (Adran 223, Deddf Llywodraeth Leol, 1972).

Gosod Cwyn ar gyfer Gorchymyn Atebolrwydd mewn perthynas â'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a Thâl Cymunedol dros ben sydd heb eu talu, yn unol â'r Rheoliadau canlynol:

Rhan VI o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi), 1992.

Rhan III o Reoliadau Trethu Annomestig (Casglu a Gorfodi), 1989.

Rhan IV o Reoliadau Taliadau Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi), 1989.

Adennill Rhenti Masnachol

Cyfarwyddo beilïaid i adennill rhenti masnachol (hawliau cyfraith gwlad).

Achosion Adennill yn y Llys Sirol

Cynrychioli'r Cyngor mewn achosion yn y Llys Sirol ar gyfer adennill Mân Ddyledion.

Ad-drefnu Llywodraeth Leol – Dyledion Dyfed

Dileu Dyledion Dyfed a grynhowyd cyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

Dyledion Anadferadwy

Dileu dyledion anadferadwy gwerth llai na £1,500.

Dileu dyledion lle mae'r dyledwr yn fethdalwr, mewn diddymiad neu wedi mynd i law'r derbynnydd.

Gweinyddu Pensiynau

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 neu ddeddfwriaeth ddilynol a'u newidiodd:

Casglu cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr gan gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun;
Gwneud taliadau mewn perthynas â buddion y cynllun;
Casglu a gwneud taliadau trosglwyddo pensiwn fel y dewisir gan aelodau'r cynllun;
Penderfynu ar ddisgresiwn nad yw'n ymwneud â pholisi, fel Awdurdod Cyflogi/Gweinyddu Pensiwn;
Ymgymryd â phenderfyniadau Cam 1 ynghylch anghydfodau sy'n deillio o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Rheoli'r Trysorlys a Bancio

Gweithredu a monitro Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Cyflawni a gweinyddu penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys, yn unol â datganiad polisi'r Cyngor a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys, a hefyd Safon Ymarfer Proffesiynol CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.

Benthyg a buddsoddi arian yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac yn unol â'r Strategaeth Buddsoddi.

Newid y cydbwysedd rhwng benthyg a rhwymedigaethau tymor hir eraill.

Dileu sefydliadau o gyfyngiadau buddsoddi neu ostwng y cyfyngiadau a nodir ar y "Rhestr o Sefydliadau a Gymeradwywyd at Ddibenion Buddsoddi" yn atodiad B o Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys lle bo eu statws credyd yn newid.

Agor a chau cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu at ddibenion buddsoddi, a llunio contract bancio.

Taliadau mewn EWROS neu Arian Cyfred arall sydd heb fod yn Sterling

Gwerthuso mantais gymharol y disgowntiau a gynigir am dalu mewn EWROS neu arian cyfred arall sydd heb fod yn Sterling a gwneud penderfyniadau ynghylch talu mewn Sterling neu arian cyfred arall yn seiliedig ar y cyfryw werthusiadau.

Dangosyddion Technegol a Darbodus

Llunio prydlesau ariannol, prydlesau gweithredol, cytundebau benthyca a threfniadau credyd eraill ar ran yr Awdurdod.

Monitro'r Dangosyddion Darbodus mewn modd priodol ac argymell diwygio'r Dangosyddion lle bo'n briodol.

Derbyniadau Cyfalaf

Symud arian derbyniadau cyfalaf yn ôl ac ymlaen rhwng cynlluniau er mwyn cyflawni bwriadau'r Cyngor.

Cyllid Grant Cyfalaf

Pan fydd Grant Cyfalaf ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn gan drydydd partïon, rhoddir dirprwyaeth mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i ddiwygio rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn unol â'r cyllid sydd ar gael (gan adrodd yn ôl-weithredol i'r Cabinet ynghylch y cyllid ychwanegol)

Llofnodwyr Awdurdodedig

Llofnodwr awdurdodedig ar gyfer trafodion yn ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin.

Llofnodwyr Sieciau

Llofnodi sieciau a chyfryngau ariannol eraill ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin.

Adnewyddu Polisïau Yswiriant

Cyd-drafod a chytuno ar delerau adnewyddu gydag Yswiriwr, ar yr amod nad yw'r Cytundeb yn para'n hwy na'r Cyfnod Contract hwyaf (Cytundeb Tymor Hir) a gytunwyd ar ddechrau'r Polisi.

Lle mae bwriad i ymestyn y tu hwnt i gyfnod hwyaf unrhyw Gytundeb Tymor Hir, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn caniatâd yr Aelod Cabinet.

Polisïau Yswiriant a Setliadau
Polisïau

Trefnu yswiriant priodol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael cyn lleied o golledion â phosibl.

Hawliadau Atebolrwydd

Cymeradwyo cynigion am setliadau "Y Tu Allan i'r Llys" yn ymwneud â Hawliadau Atebolrwydd yn unol ag argymhelliad Yswirwyr yr Awdurdod, y rhai a enwebwyd i drin Hawliadau Atebolrwydd neu'r Cyfreithwyr sydd dan gyfarwyddyd i amddiffyn yr hawliad perthnasol.

Hawliadau Difrod i Eiddo

Cymeradwyo setliadau Hawliadau Eiddo fel yr argymhellir gan Addaswyr Colledion Eiddo yr Awdurdod.

Gweithdrefn Mân Hawliadau

Setlo Hawliadau Difrod i Eiddo Personol gan aelodau o'r cyhoedd (ac eithrio Aelodau a gweithwyr) hyd at uchafswm o £250* am bob hawliad. Bydd hawliadau yn ymwneud â Niwed Personol neu hawliadau yn codi o ddigwyddiad a allai arwain at amryw o hawliadau tebyg yn cael eu hanfon ymlaen at y rhai a enwebwyd i Drin Hawliadau

- Gall yr uchafswm o £250 newid yn unol â'r mynegrif prisiau adwerthu.

Cymeradwyo Hawliadau Indemniad ar gyfer Aelodau a Swyddogion hyd at £5000

Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, cymeradwyo hawliadau indemniad nad ydynt wedi'u cwmpasu gan bolisi yswiriant y Cyngor, hyd at uchafswm o £5,000.

Setliadau Tribiwnlys Cyflogaeth

Gwneud taliadau mewn perthynas â setliadau cyfaddawd y cytunwyd arnynt gan y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yng nghyswllt Tribiwnlysoedd Cyflogaeth.

Cronfa'r Degwm

Llofnodwr awdurdodedig.

Treuliau Symud Crwneriaid

Cynyddu ffioedd yn unol â chwyddiant.

Llythyrau Gweinyddu

Gwneud cais am Lythyrau Gweinyddu ar ran yr Awdurdod.

Lwfansau Lletya Plant a delir i Ofalwyr Maeth

Adolygu a chytuno ar godiadau blynyddol yn y lwfansau lletya sydd i'w talu i ofalwyr maeth, yn dilyn ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol.

Dull Cynnal / Gweithredu Busnes

Rhoi ystyriaeth i bob cais yn unol â meini prawf a gytunwyd, yn dilyn ymgynghori â'r Pennaeth Adfywio.

Cyd-fenter Llanelli

Cyd-drafod unrhyw fenthyciadau interim pellach nes y ceir anfonebau a dargedwyd ac yr ymrwymwyd iddynt trwy gontract.

GWASANAETHAU CYMUNEDOL

GOFAL CYMDEITHASOL

Bydd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol* awdurdod dirprwyedig i ymarfer yr holl bwerau cysylltiedig â swyddogaethau'r Cyngor Sir fel Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol ac o dan y deddfiadau a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gwasanaethau Oedolion

Bydd pwerau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer oedolion yn cynnwys:

- Asesu anghenion unigolion, a Rheoli Gofal pawb sy'n gymwys i dderbyn cymorth o gronfeydd cyhoeddus, fel y pennir yn Neddf GIG a Gofal Cymunedol 1990 a Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd a, lle bo'n berthnasol, Deddf Gallu Meddyliol 2005.

- Asesu anghenion Gofalwyr yn unol â Deddf Gofalwyr (Cydnabod a Gwasanaethau) 1995, Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 a Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal), 2004.

- Diwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer unigolion naill ai trwy ddarpariaeth uniongyrchol neu trwy gomisiynu o'r Sector Annibynnol neu asiantaethau neu gyrff eraill yng nghyswllt y canlynol:

  Gofal Preswyl
  Gwasanaethau heblaw rhai Preswyl
  Therapi Galwedigaethol
  Darparu Cymhorthion a Chyfarpar
  Gwasanaethau Cyflogaeth
  Gwasanaethau gwaith cymdeithasol
  Grantiau i Sefydliadau/Unigolion
  Addasiadau
  Prydau Cymunedol
  Trafnidiaeth
  Taliadau uniongyrchol
  Byw â chymorth
  Unrhyw wasanaeth arall ategol i'r uchod, neu a all ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth, ac sydd wedi'i ganiatáu drwy statud

  - Awdurdod i wneud trefniadau a/neu lunio contractau ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

  - Cyfrifoldeb dros reolaeth feunyddiol ar yr adeiladau y mae eu hangen ar y Cyngor i ddarparu'r cyfryw wasanaethau.

  - Awdurdodi a phenodi Gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy a Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy at ddibenion Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd.

  - Cymeradwyo a thalu grantiau i sefydliadau.

- Casglu ac adennill taliadau am wasanaethau a ddarparwyd a/neu a gomisiynwyd.

- Gweithredu fel asiant neu frocer ar ran corff cyhoeddus arall neu asiantaeth y llywodraeth.

- Hwyluso a rheoli gwasanaethau ar ran cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

- Cynllunio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol lle bo'r ddeddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddyd statudol yn caniatáu disgresiwn neu'n aneglur, a hefyd bod ef/hi'n cael awdurdod i ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i uwch-swyddogion addas fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion yn effeithlon a heb oedi diangen (Gwasanaethau Cymdeithasol Preswyl – Arferion a Pholisi)

***** Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wedi dirprwyo ei holl swyddogaethau statudol ynghylch plant a phobl ifanc i **Bennaeth y Gwasanaethau Plant**. Mae Cyfarwyddwr Addysg a Phlant hefyd wedi dirprwyo rhai o'i swyddogaethau statudol ynghylch plant a phobl ifanc i Bennaeth y Gwasanaethau Plant, fel y disgrifir ymhellach yn y Cynllun hwn.

Gofal am famau beichiog a mamau sy'n magu a phlant ifanc.

Cymeradwyo a thalu grantiau i gyrff a sefydliadau allanol.

SWYDDOGAETHAU DIOGELU'R CYHOEDD

Dirprwyir holl swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd i **Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol** ac i'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel**, gan gynnwys yr holl swyddogaethau a restrir isod (ond heb ei gyfyngu iddynt).

Awdurdodi Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd i weithredu fel Swyddog Priodol yng nghyswllt:

Deddf Diogelwch Bwyd 1990;
Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Adrannau 112, 204, 213, 234 ac Atodlen 25;
Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1936 - 1961;
Deddf Trwyddedu 2003.

Trwydded Yrru Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat neu Drwydded Yrru Ddeuol

Penderfynu ar geisiadau na wrthwynebwyd a gyflwynwyd am drwydded yrru cerbyd hacnai neu hurio preifat neu drwydded yrru ddeuol.

Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005

Awdurdod dirprwyedig i gyflwyno sylwadau ar ran y Cyngor, gan weithredu yn ei gapasiti fel awdurdod cyfrifol.

Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd

Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau UE canlynol:

Rheoliad (CE) Rhif 178/2002
Rheoliad (CE) Rhif 852/2004
Rheoliad (CE) Rhif 853/2004
Rheoliad (CE) Rhif 854/2004
(A luniwyd o dan y Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd a nifer o Gyfarwyddebau'r UE)

Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004
(A luniwyd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Cymunedau Ewrop, 1972)

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
(A luniwyd o dan Ddeddf Cymunedau Ewrop, 1972)

Hyd a Lled y Ddirprwyaeth

Lle bernir ei bod yn fanteisiol er mwyn hybu neu ddiogelu buddiannau trigolion yr ardal, bydd y pwerau a geir yn Adrannau 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, i erlyn neu i amddiffyn achos cyfreithiol ac i gyflwyno sylwadau mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus, yn cael eu dirprwyo i **Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol**, **y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** a Swyddogion yr Adran sy'n defnyddio awdurdod dirprwyedig penodol a roddwyd gan y Cyngor, yn amodol ar gytundeb Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.

Gwaith heb ei Gyflawni

Cychwyn a gwneud trefniadau ar gyfer gwneud gwaith sydd heb ei gyflawni.

Awdurdodiad Cyffredinol i Orfodi Deddfau a Rheoliadau neu Orchmynion a wnaed yn unol â'r Deddfau

Awdurdod i'r Cyfarwyddwr ac i'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel i ymarfer yr holl bwerau a dyletswyddau (yn cynnwys unrhyw bwerau gorfodi ac unrhyw benderfyniadau ynghylch penodi arolygwyr) sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r Statudau canlynol:

Deddf Gadawiad Anifeiliaid 1960
Deddf Asiantaethau Lletya 1953
Deddfau Gweinyddu Cyfiawnder 1970 ac 1985
Deddf Amaeth 1970
Deddf Amaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968
Deddfau Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 ac 1931

Deddf Rheoli Aids 1987
Deddf Anifeiliaid 1971
Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963
Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Deddf Lles Anifeiliaid 2006
Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

Deddfau Bridio Cŵn 1973 ac 1991
Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999
Deddf Darlledu 1990
Deddf Adeiladu 1984
Deddf Enwau Busnes 1985

Deddf Canser 1939
Deddf Meysydd Carafanau 1968
Deddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960
Deddf Selwloid a Ffilmiau Sinematograff 1922
Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Deddf Plant a Phobl Ifanc (Gwarchod rhag Tybaco) 1991
Deddf Sinemâu 1985
Deddf Aer Glân 1993
Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005
Deddf Cwmnïau 1985
Deddf Cytundebau Cyflafareddu Cwsmeriaid 1988
Deddf Credyd i Ddefnyddwyr 1974
Deddf Gwarchod Defnyddwyr 1987
Deddf Rheoli Llygredd 1974
Deddf Rheoli Halogi (Newidiad) 1989
Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988
Deddf Gorfodi Hawlfraint ac ati, a Throseddau Masnachnod 2002

Deddf Ymgeisiau i Droseddu 1981
Deddfau Cyfiawnder Troseddol 1982
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994
Deddf Cyfraith Troseddau 1977

Deddf Cŵn Peryglus 1989 ac 1991
Deddf Cŵn Peryglus (Deddf Newidiad) 1997
Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976
Deddf Diogelu Data 1984
Deddf Anheddau Diffygiol 1972
Deddf Datblygu Twristiaeth 1969
Deddf Cŵn 1906 a Deddf Cŵn (Newidiad) 1928

Deddf Diwygio Addysg 1988
Deddf Ynni 1976
Deddf Arbed Ynni 1981
Deddf Menter 2002
Deddf yr Amgylchedd 1995

Deddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1988
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
Deddf Gwerthwyr Eiddo 1979
Deddf Cymunedau Ewrop 1972 ac unrhyw Reoliadau a luniwyd oddi tani
Deddf Ffrwydron 1923
Deddf Ffrwydron (Oedran Prynu) 1976

Deddf Masnachu Teg 1973
Deddf Cemegau Ffermydd a Gerddi 1967
Deddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981
Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985
Deddf Diogelwch Bwyd 1990
Deddf Twyll 2006

Deddf Helwriaeth 1831
Deddf Gamblo 2005
Deddf Cŵn Gwarchod 1975

Deddf Dilysnodi 1973
Deddf Iechyd 2006
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
Deddf Priffyrdd 1980
Deddf Diogelwch yn y Cartref 1961
Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939
Deddf Hypnotiaeth 1952

Deddf (Cofrestru) Broceriaid Yswiriant 1977

Deddf Cyllyll 1997

Deddf Digolledíad Tir 1973
Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985
Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980
Deddfau Llywodraeth Leol a Thai 1984 ac 1989
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 2003
Deddf Trwyddedu 2003

Deddf Gohebiaethau Maleisus 1988
Deddf Meddyginiaethau 1968
Deddf Mwynfeydd a Chwareli 1954
Deddf Camliwio 1967
Deddf Cartrefi Symudol 1983
Deddf Ffug-ocsiynau 1961
Deddf Sŵn Beiciau Modur 1987
Deddf Cerbydau Modur (Cyfarpar Diogelwch i Blant) 1991

Deddf y Loteri Genedlaethol 1993
Deddf Sŵn 1996

Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993
Deddf Asiantaethau Nyrsys 1957

Deddf (Gwarchod) y Symbol Olympaidd ac ati 1995

Deddf Patentau, Dyluniadau a Nodau 1986
Deddf (Rheoleiddio) Anifeiliaid Perfformio 1925
Deddf Pla-laddwyr (Ffïoedd a Gorfodaeth) 1989
Deddf Anifeiliaid Anwes 1951
Deddf Petrolewm (Cydgrynhoad) 1928
Deddf Petrolewm (Trosglwyddo Trwyddedau) 1936
Deddf Cynllunio a Sylweddau Peryglus 1990
Deddf Gwenwynau 1972
Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd, ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916
Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999
Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949
Deddfau Prisiau 1974 ac 1975
Deddf Camddisgrifiadau Eiddo 1991
Deddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu 1977
Deddf Gwarchod Anifeiliaid 1911
Deddf Amddiffyn Plant (Tybaco) 1986
Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1936 a 1961
Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Afiechydon) 1984

Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993
Deddf (Amwynder) Gwaredu Sbwriel 1978
Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974
Deddfau Rhenti 1957 – 1977

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 ac 1970
Deddfau Traffig Ffyrdd 1988 ac 1991
Deddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988
Deddf Traffig Ffyrdd (Cerbydau Tramor) 1972
Deddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988

Deddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975
Deddf Gwerthiant Nwyddau 1979
Deddf Whisgi'r Alban 1988
Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013
Deddf Cyfreithwyr 1974
Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010
Deddf Masnachu ar y Sul 1994
Deddf Cyflenwi Nwyddau 1979
Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982

Deddf Telathrebu 1984
Deddfau Dwyn 1968 ac 1978
Deddf Cyfnodrannu 1992
Deddf Camweddau (Ymyrraeth â Nwyddau) 1977
Deddfau Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ac 1889
Deddf Disgrifiadau Masnach 1968
Deddf Nodau Masnach 1994
Deddfau Cynrychiolwyr Masnachu (Pobl Anabl) 1958 ac 1972
Deddf Cynlluniau Masnachu 1991
Deddf Stampiau Masnachu 1964

Deddf Telerau Contract Annheg 1977
Deddfau Nwyddau a Gwasanaethau nas Archebwyd 1971 ac 1975

Deddf Troseddau Cerbydau 2001
Deddf Recordiadau Fideo 1984
Deddf Recordiadau Fideo 1993
Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006
Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
Deddf Adnoddau Dŵr 1991
Deddfau Pwysau a Mesurau 1976 ac 1985

Deddf Trwyddedu Sŵau 1981

Pwerau Dirprwyedig Penodol

Mae'r Statudau canlynol yn cynnwys y pwerau dirprwyedig penodol sy'n ofynnol er mwyn i swyddogaeth Diogelu'r Cyhoedd weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae pob Statud a'r pŵer perthnasol wedi cael ei nodi a'i ddisgrifio ar bob tudalen, fel y gellir ymgynghori â'r ddogfen neu ei diwygio'n hwylus.

Uwch Reoliadau Gwasanaethau Teledu 1996

Caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion orfodi Uwch Reoliadau y Gwasanaethau Teledu:

Rheoliad 16 ac Atodlen 2 Paragraff 3(i) Pŵer i brofi/brynu.

Rheoliad 16 ac Atodlen 2 Paragraff 4 Pŵer chwilio yn cynnwys archwilio, atafaelu a chadw.

Rheoliad 16 ac Atodlen 2 Paragraff 7 Pŵer i wneud cais i'r Llysoedd am fforffedu nwyddau a atafaelwyd.

Awdurdodi'r swyddogion canlynol at ddibenion Uwch Reoliadau y Gwasanaethau Teledu 1996:

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981

A.52 Gweithredu fel Arolygwr at ddibenion gweithredu a gorfodi'r Ddeddf.

A.60 Arestio rhywun heb warant am rwystro, sefyll yn ffordd neu helpu i rwystro neu sefyll yn ffordd swyddog wrth weithredu'r Ddeddf.

A.63 Defnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.64 Defnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor mewn perthynas â gwarchod dofednod rhag dioddef yn ddiangen, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

A.51 Penodi rhywun yn arolygydd at ddibenion y Ddeddf hon.

Rheoliadau Anifeiliaid, Cig etc. (Archwilio am Weddillion ac ati) 1991

Gweithredu mewn materion sy'n codi dan Reoliadau Anifeiliaid, Cig ac ati (Archwilio am Weddillion ac ati) 1991.

Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Gwahardd Anfon a Chyfyngu Cynhyrchu) 1997

Penodi Arolygwyr yng nghyswllt cyfrifoldebau gorfodi o dan y rheoliadau uchod.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

Mae'r Prif Weithredwr yn dirprwyo'r pwerau canlynol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel:
A.40 - Cau safleoedd swnllyd
A.41 - Cau safleoedd swnllyd: atodol

Deddf Bridio Cŵn 1973

A1 Dyroddi trwydded mewn perthynas â sefydliad bridio cŵn.
A2 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Bridio Cŵn 1991

A1 Gwneud cais i Ynad Heddwch am warant i gael mynediad i eiddo i'w archwilio at ddibenion y Ddeddf.

Deddf Adeiladu 1984

A.59 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â draeniad anfoddhaol mewn eiddo.

A.60 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â defnydd amhriodol o bibellau dŵr glaw ar gyfer awyru pibellau pridd.

A.64 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chyflwr gwael tai bach neu ddarpariaeth annigonol ohonynt mewn adeiladau.

A.65 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â darpariaeth annigonol o dai bach mewn gweithleoedd.

A.95 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.76 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas ag Eiddo Diffygiol.

A.79 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas ag adeiladau Adfeiliedig sydd mewn cyflwr gwael a safleoedd a esgeuluswyd.

A.81 Cyhoeddi Hysbysiad i unigolion sy'n gwneud gwaith dymchwel.

A.107 Adennill costau a dalwyd gan yr Awdurdod.

Deddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960

A.3 Dyroddi Trwyddedau Safle mewn perthynas â meysydd carafanau.

A.8 Newid amodau sy'n gysylltiedig â Thrwydded Safle Carafanau.

A.10 Trosglwyddo Trwyddedau Safle Carafanau, a thraddodi Trwydded adeg marwolaeth.

A.26 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Plant a Phobl Ifanc (Gwarchod rhag Tybaco) 1979

5(1) (a) Defnyddio pwerau i ddatblygu rhaglen orfodi o dan ddarpariaethau adran 7(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ac o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf.

5(1) (b) Gorfodi rhaglenni yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Aer Glân 1993

A.12 Mynnu gwybodaeth am ffwrneisiau a'r tanwydd a ddefnyddir.

A.36 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chael gwybodaeth am lygredd aer.

A.56 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.58 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chasglu gwybodaeth.

Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005

A.77 – Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ymarfer pwerau mynediad o dan y Ddeddf.
A.78 – Gwneud cais am Warant i gael mynediad i safleoedd.

Deddf Rheoli Llygredd 1974

A.60 Cyhoeddi Hysbysiad o dan Adran 60 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974.

Deddf Credyd i Ddefnyddwyr 1974

A.162 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad at ddibenion archwilio o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

A.164 Prawf-brynu nwyddau, gwasanaethau, cyfleusterau a thrafodion eraill.

Deddf Gwarchod Defnyddwyr 1987

A.14 Cyhoeddi Hysbysiad Atal.

A.16 Cais i'r Ynadon am fforffediad.

A.28 Prawf-brynu nwyddau, gwasanaethau, llety neu gyfleusterau.

A.29 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau chwilio o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

A.30 Cais am warant gan yr Ynadon i gael mynediad i eiddo.

Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988

A.27 Gwneud prawf-bryniannau.

A.28 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.107A Gorfodi Adran 107 mewn perthynas â chopïau tor-hawlfraint.

198A(1) Gorfodi Adran 198 mewn perthynas â recordiadau anghyfreithlon.

58A Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990

A.107 Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf a phenodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Cŵn Peryglus 1991

A.5 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad a phwerau atafaelu yng nghyswllt cŵn peryglus.

Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976

A.1 Dyroddi Trwydded mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt peryglus.

A.3 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.4 Defnyddio pwerau atafaelu a chael gwared ag anifeiliaid yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Datblygu Twristiaeth 1969

Offeryn Statudol – Gorchymyn Twristiaeth (Arddangos Prisiau Llety Cysgu) 1969.

Rheoliad 5 Penodi swyddogion i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio fel swyddogion awdurdodedig o'r Cyngor, yn rhinwedd ei swydd fel Awdurdod Pwysau a Mesurau.

Deddf Diwygio Addysg 1988

Adran 215 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac i chwilio eiddo a'i gwneud yn ofynnol i gyflwyno dogfennau a hefyd i wneud copïau ac atafaelu unrhyw beth y mae ei angen yn dystiolaeth ar gyfer gorfodi adran 214 o'r Ddeddf.

Deddf Ynni 1976

A.18 Atodlen 2 Paragraffau 2 a 3
Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac i archwilio dogfennau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Arbed Ynni 1981

A.20 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf yr Amgylchedd 1995

A.108 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad, arolygu, archwilio, mesur, tynnu lluniau, cymryd cofnodion, samplau ac i ofyn am wybodaeth, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.109 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau i atafaelu unrhyw eitem neu sylwedd a'i wneud yn ddiogel.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

A.6 Cyhoeddi Awdurdodiad ar gyfer proses ragnodedig.

A.10 Cyhoeddi Hysbysiad Amrywio mewn perthynas â phroses ragnodedig.

A.11 Cyhoeddi Amrywiad mewn perthynas â phroses ragnodedig.

A.12 Diddymu Awdurdodiad ar gyfer prosesau rhagnodedig.

A.13 Cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi mewn perthynas â phroses ragnodedig.

A.14 Cyhoeddi Hysbysiad Gwahardd mewn perthynas â phroses ragnodedig.

A.19 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chael gwybodaeth gan unigolion.

A.59 – Gofyn bod gwastraff a reolir yn cael ei glirio.

A.71 – Casglu gwybodaeth gan bobl neu awdurdodau yng nghyswllt Adran 59.

A.78E - Gofyn bod tir a halogwyd yn cael ei adfer ac ati

A.80 Cyhoeddi Hysbysiad Gostegu mewn perthynas â niwsans statudol.

80A*Cyhoeddi Hysbysiad Gostegu mewn perthynas â niwsans sŵn statudol sy'n gollwng o gerbyd, peiriant neu offer mewn stryd neu sy'n cael ei achosi gan un o'r rhain.

81A Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chostau y gellir eu hadennill oddi wrth berchennog eiddo o ganlyniad i gamau a gymerir o dan ddarpariaeth y Ddeddf.

A.88 – Cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig a phenodi swyddogion a awdurdodwyd i ymarfer pwerau o dan y Ddeddf.

A.92A – Cyhoeddi hysbysiadau clirio sbwriel.

A.149 Penodi Swyddogion i ddelio â chyflawni pwerau mewn perthynas ag atafaelu cŵn crwydr.

Atodlen 3 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Gwerthwyr Eiddo 1979

Adran 11 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Rheoliadau (Cyfrifon) Gwerthwyr Eiddo 1981

Rheoliad 8 Defnyddio pwerau ar gyfer mynnu adroddiad Archwilwyr mewn perthynas â chyfrifon cleientiaid.

Deddf Cymunedau Ewrop 1972
Rheoliadau Cynnyrch Adeiladu 1991
Rheoliad 10 Cyhoeddi Hysbysiad Atal mewn perthynas â chynhyrchion adeiladu.

Rh.12 Ceisio sicrhau bod cynhyrchion adeiladu yn cael eu fforffedu.

Rh.16 Gwneud prawf-bryniannau yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau.

Rheoliadau Cynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005

Rhoi ac amrywio cofrestriadau a thrwyddedau ar gyfer storio ffrwydron, a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i weinyddu'r system gofrestru a thrwyddedu.

Gwrthod ceisiadau a diddymu neu addasu cofrestriadau neu drwyddedau safleoedd.

Rheoliadau (Safonau Marchnata) Wyau 1995
Rheoliad 4 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau a phenodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad.

Rheoliadau Cysondeb Electromagnetig 1995
Rheoliad 73 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau.

Rheoliadau Cysondeb Electromagnetig 1995
Rh.74 Gwneud prawf-bryniannau.

Rh.75 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad a chwilio.

Rh.76 Ceisio Gwarant gan yr Ynadon.

Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol 1994

Rh.19 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau a chyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â dyfeisiau sy'n dwyn nod y Gymuned Ewropeaidd a gafodd ei osod yn anghywir.

Rheoliadau Teithio Pecyn, Gwyliau Pecyn a Theithiau Pecyn 1992

Rh.23 Paragraffau 3 a 4(1) o Atodlen 3

Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad, a'i gwneud yn ofynnol i gyflwyno neu atafaelu neu gadw llyfrau a dogfennau.

Paragraff 4(2) o Atodlen 3 Ceisio Gwarant gan yr Ynadon.

Rheoliadau (Cyfarwyddeb CE) Offer Diogelwch Personol 1992

Rh.3 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau.

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1955

Rh.7 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau.

8(1) Gwahardd symudiadau.

Rheoliadau (Gofynion CEE) Chwistrellau Aerosol 1997

Rh.5 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau.

Rh.10 Cychwyn achos cyfreithiol.

Rheoliadau Gwybodaeth am Ynni (Oergelloedd a Rhewgelloedd) 1994

Rh.14 - Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau

Atodlen 6 Paragraff 6 Cyhoeddi Hysbysiad ynghylch camau adfer.

Rh.9 Mynnu gwybodaeth.

Rh.10 Gwneud prawf-bryniannau.

Rh.11 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad a chwilio a cheisio Gwarant gan yr Ynadon.

Deddf Masnachu Teg 1973

A.28 Prawf-brynu nwyddau a gwasanaethau.

A.29 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad at ddibenion archwilio ac atafaelu nwyddau a dogfennau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985

Adran 19(1)(c) Gweithredu fel swyddog awdurdodedig o'r Cyngor yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

At ddibenion Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986, penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad i eiddo, cerbydau, cychod, awyrennau, hofrenfadau ac adeiladau morol, i fynnu gwybodaeth, i gyhoeddi Hysbysiadau mewn perthynas â throseddau a mynnu camau adfer neu, os oes perygl y cyflawnir trosedd, i wahardd gweithgareddau.

Deddf Diogelwch Bwyd 1990

A.5 Gweithredu fel swyddog awdurdodedig yr awdurdod bwyd, i weithredu'n gyffredinol neu'n benodol mewn materion sy'n codi o dan y Ddeddf mewn perthynas ag A.32 yn arbennig.

A.6(6) Gweithredu fel swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi.

A.9(1) Penodi swyddogion a awdurdodwyd i archwilio bwyd a fwriedir i'w fwyta gan bobl.

A.9(3) Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â bwyd nad yw i'w fwyta gan bobl ac atafaelu bwyd er mwyn i Ynad Heddwch ddelio ag ef.

A.11 Cyhoeddi Tystysgrif yn nodi bod yr awdurdod bwyd yn fodlon nad oes sefyllfa sy'n peryglu iechyd yn bodoli bellach mewn busnes bwyd.

A.29 Awdurdodiad i gaffael samplau o fwyd.

A.30 Awdurdodiad i sicrhau bod samplau bwyd yn cael eu dadansoddi.

A.32 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.42 Gweithredu fel Swyddog Priodol at ddibenion y Ddeddf.

Deddf Helwriaeth 1831

A.18 Dyroddi Trwydded mewn perthynas â delio mewn helwriaeth.

Deddf Cŵn Gwarchod 1975

A.3 Dyroddi trwydded mewn perthynas â chadw cynelau cŵn gwarchod.

Deddf Dilysnodi 1993

A.9 Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

A.19 Penodi Arolygwyr i roi'r darpariaethau statudol perthnasol ar waith.

A.20 - Pwerau Arolygwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol

A.21 Cyhoeddi Hysbysiad Gwelliannau mewn perthynas ag achos o dorri unrhyw un o'r darpariaethau statudol perthnasol.

A.22 Cyhoeddi Hysbysiad Gwahardd i osgoi perygl anaf personol difrifol.

A.25 Ymateb i achosion o berygl sydd ar ddigwydd.

A.26 Indemnio Arolygwyr.

A.39 Erlyniad gan Arolygydd gerbron Llys Ynadon am drosedd o dan unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol.

Rheoliadau Deddf Iechyd, 2006 - safleoedd di-fwg ac ati (Cymru) 2006

Awdurdodi swyddogion i orfodi darpariaethau'r Rheoliadau.

Deddf Cyfraith Eiddo 1925

Dylai'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd**, a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** gychwyn y camau angenrheidiol i orfodi gwerthiant, gan gynnwys gwaredu'r eiddo.

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

A.20 Cyhoeddi Hysbysiad ar gyfer darparu peiriannau iechydol mewn mannau adloniant cyhoeddus ac adeiladau eraill.

Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.33 Gwneud trefniadau ar gyfer adfer neu barhau'r cyflenwad dŵr, nwy neu drydan i breswylfa a feddiennir.

A.35 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â rhwystr mewn carthffos breifat.

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

A.33 Adfer y cyflenwad dŵr, nwy neu drydan.

A.35 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â rhwystr mewn carthffos breifat.

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982

A.29 Cyhoeddi Hysbysiad i ddiogelu adeiladau rhag mynediad heb ganiatâd neu'r rhai sy'n debygol o beryglu iechyd cyhoeddus.

Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor mewn perthynas â diogelu adeiladau rhag mynediad heb ganiatâd ac ati.

Paragraff 14 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

O dan atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2009, trwyddedu safleoedd o dan gategori newydd sef Lleoliadau Adloniant Rhyw. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r awdurdod bennu ffioedd sy'n adlewyrchu costau prosesu ceisiadau a phenderfynu arnynt, delio â gwrthwynebiadau a chwynion ynghyd â gwaith gorfodi rheolau. Y Cyngor Sir 07/03/12

Deddf Meddyginiaethau 1968

A.108 Cyflawni swyddogaethau'r Cyngor fel Awdurdod Cyffuriau mewn perthynas â rheoli nwyddau meddyginiaethol mewn adeiladau heblaw rhai fferyllol o dan ddarpariaethau adrannau 53 a 54, rheoli bwydydd anifeiliaid meddyginiaethol o dan ddarpariaethau adrannau 62(1)(b) a 90 o'r Ddeddf.

A.111 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad mewn perthynas ag adeiladau, llongau, awyrennau neu hofranfadau o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

A.112 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i archwilio, cymryd samplau, ac atafaelu nwyddau a dogfennau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Sŵn Beiciau Modur 1984

A.1 Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf.

Rheoliadau Cwmnïau Arbed Rhannau Ceir 2002

Gweithredu'r Cynllun Cofrestru Cwmnïau Arbed Rhannau Ceir, gan gynnwys awdurdod i gofrestru ceisiadau na cheir dadlau yn eu cylch.

Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993

A.2 Dyroddi Caniatâd i ddefnyddio uchelseinyddion ar strydoedd neu ffyrdd.
A.3 Paragraffau 6 a 7 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Rheoliadau Cynhyrchion Cig Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Chyfyngiadau ar Weddillion) 1991

Rheoliad 20 Archwilio cofnodion meddyginiaethau ar ffermydd.

Rheoliadau Defnyddiau a Nwyddau mewn Cysylltiad â Bwyd 1987

Rheoliad 12 Gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau a phenodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad.

Deddf (Rheoli) Anifeiliaid Perfformio 1925

A.1 Dyroddi Tystysgrifau Cofrestru mewn perthynas ag arddangos neu hyfforddi anifeiliaid perfformio.

A.2 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951

A.1 Dyroddi Trwydded mewn perthynas â chadw siop anifeiliaid anwes.

A.4 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Petrolewm (Cydgrynhoad) 1928

A.1 Dyroddi Trwydded mewn perthynas â chadw gwirod petrolewm.

A.17 Defnyddio pwerau i brynu samplau petrolewm at ddibenion profi.

A.18 Gwneud cais i Lys Diannod am warant i chwilio am wirod petrolewm.

Deddf Gwenwynau 1972

A.9 Gweithredu fel Arolygydd at ddibenion y Ddeddf a phenodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999
Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000

Rheoliad 10 - Dyroddi hawlen
Rheoliad 17 - Amrywio amodau hawlen
Rheoliad 18 - Trosglwyddo hawlenni
Rheoliad 21 - Diddymu hawlenni
Rheoliad 24 - Hysbysiad Gorfodi
Rheoliad 25 - Hysbysiad Atal
Rheoliad 26 - Pŵer y rheolydd i atal neu wneud iawn am lygredd
Rheoliad 28 - Gwybodaeth

Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949

A.4 Cyflwyno Hysbysiad mewn perthynas â difa llygod mawr a llygod bach neu gadw tir yn rhydd o lygod mawr a llygod bach.

A.6 Ymarfer pwerau mewn perthynas â grwpiau o safleoedd.

A.22 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Swyddog Priodol ar gyfer Cyngor Meddygol

Awdurdod i benodi Swyddog Priodol ar gyfer cyngor meddygol. Bydd gan y Swyddog Priodol y pwerau dirprwyedig canlynol:

Deddf Cymorth Gwladol 1948 - Adran 47 BMc
Deddf (Newid) Cymorth Gwladol 1951 - Adran 1 BMc
Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Afiechydon) 1984 - Adrannau 21, 22, 24, 26, 28-32, 35-38, 40-43, 48 a 51
Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Afiechydon Heintus) 1988

Deddfau Prisiau 1974 ac 1975

Atodlen 1 Paragraff 7 Prawf-brynu nwyddau.

Atodlen 1 Paragraff 9 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad at ddibenion archwilio ac atafaelu nwyddau a dogfennau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Camddisgrifiadau Eiddo 1991

Adran 3 ac Atodlen 1 Paragraffau 3 a 4(1) Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad at ddibenion archwilio nwyddau ac atafaelu dogfennau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936

A.45 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas ag adeiladau sydd â thai bach diffygiol y gellir eu hatgyweirio.

A.50 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â charthbyllau sy'n gorlifo ac yn gollwng.

A.78 – clirio gwastraff o unrhyw fuarth neu lwybr sydd at ddefnydd cyffredin meddianwyr dau neu fwy o adeiladau.

A.83 Cyflwyno Hysbysiad mewn perthynas â glanhau adeiladau aflan neu ferminog.

A.140 Cais i Lys Diannod am gau neu gyfyngu ar ddefnyddio dŵr o ffynhonnell lygredig.

A.269 Dyroddi Trwydded mewn perthynas â rheoli preswylfeydd symudol.

A.284 Awdurdodiad i ddilysu dogfennau.

Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1961

A.17* Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas ag atgyweirio draeniau a chywiro draeniau lle ceir atalfa.

A.34 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â gwaredu pentyrrau o sbwriel.

A.73 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â gweithredu er atal perygl o achos tanciau petrol sydd wedi'u gadael i ddadfeilio.

Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Afiechydon) 1984

A.18 Swyddog Priodol at ddibenion yr adran hon o'r Ddeddf, ar gyfer ceisio a derbyn gwybodaeth gan breswylydd eiddo yn achos clefyd hysbysadwy neu wenwyn bwyd.

A.20 Swyddog Priodol at ddibenion yr adran hon o'r Ddeddf, ar gyfer cyhoeddi Hysbysiad yn gofyn bod rhywun yn rhoi'r gorau i'w waith er mwyn rhwystro clefyd y cyfeirir ato yn A.28 o Ddeddf Bwyd 1984 rhag ymledu.

A.23 Swyddog Priodol at ddibenion yr adran hon o'r Ddeddf, ar gyfer cyhoeddi Hysbysiad yn eithrio plant o fannau adloniant neu ymgynnull er mwyn rhwystro clefyd rhag ymledu.

A.61 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

Deddf (Amwynder) Gwaredu Sbwriel 1978

A.6 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â symud a gwaredu sbwriel arall.

A.8 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964

A.1*Dyroddi Trwydded mewn perthynas â sefydliadau marchogaeth.

A.2 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Traffig Ffyrdd 1988

A.70 Defnyddio pwerau i wahardd defnyddio cerbyd gorlwythog o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

A.78 Awdurdodiad i bwyso cerbydau ar ran yr Awdurdod Priffyrdd.

Deddf Traffig Ffyrdd 1991

A.47 Penderfynu a yw rhywun yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat a chyflwyno cais i brif swyddog yr heddlu am ei sylwadau ef.

Deddf Traffig Ffyrdd (Cerbydau Tramor) 1972

A.1 Defnyddio pwerau i wahardd defnyddio cerbyd gorlwythog o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

A.2 Awdurdodiad i roi gorchymyn esemptio y DU neu ddiddymu hysbysiad gwahardd.

Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013

A.6 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Bod yr asesiad cychwynnol o geisiadau am drwydded delwyr metel sgrap yn cael ei ddirprwyo i swyddogion

Gorchymyn y Clafr 1997

Gweithredu ar ran yr Awdurdod Lleol o dan ddarpariaethau'r gorchymyn uchod.

Deddf Cyfreithwyr 1974

A.22 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010, ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig, yn enwedig Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 o 31ain Hydref 2011

Dirprwyo pwerau i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel i orfodi darpariaethau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010, ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig, yn enwedig Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 o 31ain Hydref 2011, gan gynnwys y pŵer i benodi swyddogion yn Swyddogion Awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf i arfer pwerau mynediad a defnyddio unrhyw gamau neu fesurau gorfodi eraill a bennwyd yn y Ddeddf a'r Rheoliadau.

Deddf Telathrebu 1984

A.30 Gorfodi darpariaethau adrannau 28 a 29 o'r Ddeddf.

Deddf Cyfnodrannu 1992

Adran 10 ac Atodlen 1 Paragraff 3

Penodi swyddogion a awdurdodwyd i fynnu bod llyfrau a dogfennau'n cael eu cyflwyno ac i ddefnyddio pwerau ar gyfer atafaelu llyfrau a dogfennau o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Disgrifiadau Masnach 1968

A.27 Prawf-brynu nwyddau, gwasanaethau, llety neu gyfleusterau.

A.28 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad at ddibenion archwilio ac atafaelu nwyddau a dogfennau o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Nodau Masnach 1994

A.27 Gwneud prawf-bryniannau.

A.28 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

A.93 Gorfodi darpariaethau adran 92 o'r Ddeddf.

Deddf Recordiadau Fideo 1984

16A Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf yn Sir Gaerfyrddin a throseddau cyfyngedig y tu allan i'r Sir gyda chaniatâd Awdurdod arall.

A.27 Gwneud prawf-bryniannau.

A.28 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad ac archwilio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf y Diwydiant Dŵr 1991

A.79 Gofyn bod ymgymerwr dŵr yn darparu cyflenwad dŵr i safle lle mae'r cyflenwad yn annigonol neu'n afiach.

A.80 Penodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau A.72 o'r Ddeddf.

A.80 Cyhoeddi Hysbysiad ynghylch gwelliannau i gyflenwad dŵr preifat.

A.85 Cyhoeddi Hysbysiad ynghylch casglu gwybodaeth at ddibenion Pennod III o'r Ddeddf.

Atodlen 6, Paragraffau 1, 2, 3,6,7,8 a 9 i benodi swyddogion a awdurdodwyd i ddefnyddio pwerau mynediad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Deddf Pwysau a Mesurau 1985

Adran 42 Prynu nwyddau at ddibenion Rhannau II, III a IV o'r Ddeddf.

A.52 Gorfodi Rhan V o'r Ddeddf.

A.53 ac Atodlen 8 paragraff 6(1) Gwneud prawf-bryniannau at ddibenion Rhan V o'r Ddeddf.

A.72(1) Awdurdodiad i weithredu a chael ei b/phenodi'n Brif Arolygydd Pwysau a Mesurau.

Awdurdodiad i weithredu fel Arolygwyr at ddibenion y Ddeddf.

Deddf Trwyddedu Sŵau 1981

A.4 Dyroddi trwydded mewn perthynas â sŵau.

SWYDDOGAETHAU TAI

Dirprwyir holl swyddogaethau'r Cyngor wrth iddo weithredu fel Awdurdod Tai i **Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol** ac i'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel**, a fydd yn cynnwys dyrannu eiddo'r Cyngor a hefyd y swyddogaethau a nodir isod (er na chaiff ei gyfyngu i hynny).

Awdurdodiad Cyffredinol i Orfodi Deddfau a Rheoliadau neu Orchmynion a wnaed yn unol â'r Deddfau

Ymarfer yr holl bwerau a dyletswyddau (a fydd yn cynnwys unrhyw bwerau gorfodi ac unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â phenodi arolygwyr) sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r Statudau canlynol:

Deddf Adeiladu 1984
Deddf Meysydd Carafanau 1968
Deddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
Deddf Tai 1985
Deddf Tai 1988
Deddf Tai 1996
Deddf Tai 2004
Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996
Deddf Digolledi ad Tir 1973
Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 1982
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 2003
Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949
Deddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu 1977
Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1936 a 1961
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

Pwerau Dirprwyedig Penodol

Mae'r Statudau canlynol yn cynnwys pwerau dirprwyedig penodol sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r swyddogaeth Tai i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae pob Statud a'r pŵer perthnasol wedi cael ei nodi a'i ddisgrifio ar bob tudalen, fel y gellir ymgynghori â'r ddogfen neu ei diwygio'n hwylus.

Deddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960

A.5 atodi amodau i drwydded maes carafanau.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Cychwyn camau gweithredu yn erbyn tenantiaid ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

A.77 Cyhoeddi Cyfarwyddyd i wersyllwyr heb awdurdod adael tir.

A.78 Gwneud cwyn i Lys Ynadon am Orchymyn ar gyfer symud ymaith unigolion a'u cerbydau sy'n bresennol yn anghyfreithlon ar dir.

Rhaglen atgyweirio grŵp arfaethedig 2000/01 ar gyfer Ardaloedd Adnewyddu Canol Rhydaman, y Garnant, Brynaman a De Llanelli.

Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet, i newid trefn y cynlluniau er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau.

Gweithredu i ddatrys, rhoi trefn a rheoli achosion o deithwyr yn tresmasu.

Trefniadau Rheoli Teithwyr

Gosod a therfynu trwyddedau ar Faes Carafanau Preswyl Pen-y-bryn.

Deddf Tai 1985

79 - Caniatáu tenantiaethau a thrwyddedau diogel i dai annedd, a chaniatáu tenantiaethau a thrwyddedau heb eu diogelu o dan yr amgylchiadau a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf.

82 – Cychwyn achos meddiant yn erbyn tenantiaid diogel.

82A – Cychwyn achos i israddio tenantiaeth ddiogel.

83 – Cyflwyno Hysbysiadau yn Ceisio Meddiant i denantiaid diogel.

85 – Gwneud cais i'r Llys Sirol am orchymyn yn gohirio neu'n atal gweithrediad gorchymyn meddiant, er mwyn gohirio'r dyddiad meddiannu, neu i newid gorchymyn meddiant neu ei osod o'r neilltu. Mynd i'r llys i gyflwyno achos ynghylch gorchmynion a geisiwyd gan denantiaid a thresmaswyr a oddefwyd o dan adran 85.

89 – Dewis olynydd lle bo gan ddau aelod neu fwy o deulu tenant hawl i fod yn olynydd mewn tenantiaeth ddiogel.

92 – Rhoi neu wrthod caniatâd i denantiaid diogel sydd am gyfnewid eu heiddo, a chyflwyno hysbysiad pan fo caniatâd yn cael ei wrthod.

94 – Rhoi neu wrthod caniatâd i denantiaid diogel sydd am isosod neu ildio meddiant o dŷ annedd mewn modd arall.

96 – Cymryd pob cam angenrheidiol i gydymffurfio â'r rheoliadau a luniwyd yn unol ag adran 96(1) o'r Ddeddf, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau atgyweirio a thalu iawndal am waith atgyweirio cymwys.

97 – Rhoi neu wrthod caniatâd i denantiaid diogel sydd am wella'u preswylfeydd, a rhoi caniatâd ar sail amodau a bennwyd yn unol ag adran 99 o'r Ddeddf.

99A – Pŵer i wneud iawn am welliannau.

100 – Pŵer i ad-dalu cost gwelliannau tenant.

102 – Pŵer i amrywio telerau tenantiaethau prawf a diogel.

103 – Cyhoeddi Rhaghysbysiad a Hysbysiad Amrywio ynghylch tenantiaeth gyfnodol.

104 – Cyhoeddi gwybodaeth am denantiaethau diogel y Cyngor.

105 – Ymgynghori â thenantiaid ynghylch Rheoli Tai.

106 – Cyhoeddi gwybodaeth am ddyrannu tai.

121A – Cyflwyno cais i'r Llys am orchymyn yn atal yr Hawl i Brynu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

121AA a 121B – Paratoi a darparu gwybodaeth i denantiaid i'w helpu i benderfynu a ydynt am ddefnyddio'u hawl i brynu.

124 – Penderfynu ar geisiadau o dan y ddeddfwriaeth a chyflwyno hysbysiad yn caniatáu neu'n gwrthod yr hawl i brynu.

125 – Cyflwyno Hysbysiad am y pris prynu a materion eraill.

125E – Cyflwyno hysbysiad diofyn, i estyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad dywededig.

128 – Pwerau i ofyn bod gwerth eiddo yn cael ei rag-benderfynu gan y Prisiwr Rhanbarthol, ac i gyflwyno'r hysbysiadau gofynnol fel sy'n briodol.

138 – Cyfarwyddo **Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** yn y Cyngor i drosglwyddo'r prydlesi Rhydd-ddaliad neu Grant yn unol â'r ddeddfwriaeth Hawl i Brynu.

Atodlen 5 – Cyflwyno Hysbysiadau Dymchwel.

138C – Rhoi iawndal i denantiaid diogel lle cyflwynir hysbysiad dymchwel.

140 – Pŵer i Gyflwyno Hysbysiad Cwblhau Cyntaf i Landlord.

141 – Pŵer i Gyflwyno Ail Hysbysiad Cwblhau i Landlord.

155A – Mynnu ad-daliad o'r swm y bernir ei fod yn briodol hyd at a chan gynnwys yr uchafswm a bennir yn y ddeddfwriaeth, adeg "Gwaredu Perthnasol" cyntaf eiddo (heblaw achosion eithriedig o waredu).

156 – Pŵer i roi caniatâd i godi tâl am arian a roddwyd i brynwr sy'n cael ei gwmpasu gan adran 156(2A) o'r Ddeddf i gymryd blaenoriaeth dros dâl cyfreithiol y Cyngor ei hun o dan adran 156(1) o'r Ddeddf.

156A – Ymarfer hawliau'r Cyngor i'r gwrthodiad cyntaf ac enwebiad.

157 – Rhoi neu wrthod caniatâd i waredu preswylfeydd mewn Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd dynodedig eraill sy'n cael eu cwmpasu gan y rhan hon o'r Ddeddf, a gorfodi cyfamodau sy'n cyfyngu ar werthiant eiddo mewn ardaloedd o'r fath.

A.189* Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â thŷ anaddas. (*Newidiwyd gan Atodlen 9, paragraff 1, Deddf Tai 1988 ac Atodlen 9, paragraff 1, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).

A.190* Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â thŷ sydd mewn cyflwr gwael ond nad yw'n anaddas i fyw ynddo.
(*Newidiwyd gan Atodlen 15, paragraff 2, Deddf Tai 1988 ac Atodlen 9, paragraff 2, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).

A.197 Awdurdodiad i benodi swyddogion awdurdodedig i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor o dan ddarpariaethau Rhan VI o'r Ddeddf.

A.264 Pŵer i wneud Gorchymyn Cau.

A.265 Pŵer i wneud Gorchymyn Dymchwel.

A.270 Gorchmynion Dymchwel: i Adennill meddiant ar adeilad.
A.273 Gorchmynion Dymchwel: i Glirio adeilad cyn ei ddymchwel.
A.274 Gorchmynion Dymchwel: Pŵer i ganiatáu ailadeiladu tŷ wedi'i gondemnio.
A.279 Gorchmynion Cau: i gyfnewid Gorchymyn Dymchwel am orchymyn cau.

Awdurdodiad i gaffael tir ar gyfer ei glirio.

A.289 Datganiad Ardal Glirio.

A.289* Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â bwriad y Cyngor i gynnwys adeilad mewn ardal glirio. (*Newidiwyd gan Atodlen 9, paragraff 25, o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).

A.297 Awdurdodiad i waredu neu newid offer gweithredu statudol mewn cysylltiad ag Ardal Glirio.

A.300 Awdurdodiad i brynu tai sy'n debygol o gael eu dymchwel neu eu clirio, i'w defnyddio ar gyfer llety dros dro.

A.319 Pwerau Mynediad.

A.319 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor o dan ddarpariaethau Rhan IX o'r Ddeddf.

A.335 Pŵer i fynnu gwybodaeth ynghylch unigolion sy'n cysgu mewn preswylfa.

A.336 Pŵer i fynnu bod llyfr rhent yn cael ei gyflwyno.

A.337 Pŵer mynediad i benderfynu faint o unigolion a ganiateir.

A.338 Cyhoeddi Hysbysiad i leihau gorlenwi.

A.340 Pwerau Mynediad.

A.346 Cynlluniau Cofrestru.

A.350 Pŵer i hawlio gwybodaeth at ddibenion Cynllun Cofrestru.

A.350 Awdurdodiad i gyflwyno Cynlluniau Cofrestru ar gyfer tai amlfeddiannaeth.

A.352 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â chyflawni gwaith er mwyn gwneud eiddo'n addas ar gyfer y nifer o breswylwyr dan sylw.

A.352 Pŵer i fynnu bod gwaith yn cael ei gyflawni er mwyn gwneud eiddo'n addas ar gyfer y nifer o breswylwyr dan sylw.

A.352A Adennill costau Hysbysiad o dan Adran 352.

A.354 Cyhoeddi Hysbysiad yn cyfyngu ar nifer y preswylwyr mewn tŷ.

A.354 Pŵer i hawlio gwybodaeth am breswyliaeth tŷ.

A.356 Pŵer i hawlio gwybodaeth am breswyliaeth tŷ.

A.356 Cyhoeddi Hysbysiad yn mynnu gwybodaeth am breswyliaeth tŷ.

A.357 Diddymu neu amrywio cyfarwyddyd o dan Adran 354.

A.358 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â gorlenwi mewn tŷ amlfeddiannaeth.

A.363 Diddymu ac amrywio Hysbysiad Gorlenwi.

A.364 Pŵer i fynnu gwybodaeth lle mae Hysbysiad Gorlenwi mewn grym.

A.366 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â modd i ddianc rhag tân mewn tŷ amlfeddiannaeth.

A.368 Modd i Ddianc rhag Tân. Pŵer i ddiogelu rhan o'r tŷ nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer byw ynddo.

A.372 Pŵer i fynnu bod gwaith yn cael ei gyflawni ar gyfer cywiro esgeulustod yn y rheoli.

A.372* Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â rheoli tŷ amlfeddiannaeth. (*Newidiwyd gan Atodlen 9, paragraff 50, o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).

A.375 Awdurdodiad ar gyfer cyflawni gwaith gan Awdurdod Tai Lleol ynghylch methu â chydymffurfio â Hysbysiad o dan Adran 352 neu 372.

A.377A Hysbysiadau Gwaith: Gwella gweithdrefnau gorfodi. Awdurdodiad i roi hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i gyflwyno Hysbysiadau Gwaith cyn cyflwyno Hysbysiad o dan Adran 352 neu Hysbysiad o dan Adran 372.

A.379 Gwneud Gorchymyn Rheoli.

A.379 Cyhoeddi Hysbysiad mewn perthynas â gorchymyn rheoli ar gyfer tŷ amlfeddiannaeth.

A.380 Awdurdodiad i gywiro Gorchymyn Rheoli lle bo'r perchennog yn byw mewn rhan o'r tŷ.

A.386 Awdurdodiad i baratoi cynllun rheoli yn amodol ar Orchymyn Rheoli.

A.388 Awdurdodiad i ddarparu dodrefn a ffitiadau mewn tŷ sy'n destun Gorchymyn Rheoli.

A.392 Awdurdodiad i ddiddymu Gorchymyn Rheoli.

A.395 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel swyddogion awdurdodedig y Cyngor o dan ddarpariaethau Rhan XI o'r Ddeddf.

A.395 Awdurdodiad i ddefnyddio pwerau mynediad fel Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor.

A.397 Awdurdodiad i wneud cais am warant i awdurdodi mynediad (os bydd angen).

Atodlen 10 Mynnu Adennill Costau a dalwyd gan yr Awdurdod Tai Lleol.

Deddf Tai 1996

124 – Caniatáu Tenantiaethau Prawf neu Drwyddedau tai annedd yn unol â dewis y Cyngor i weithredu trefn tenantiaeth brawf.

125A – Cyflwyno Hysbysiad Estyn ac estyn Tenantiaeth neu drwydded Brawf am 6 mis arall, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol yn y Ddeddf.

127 – Codi Achos Meddiant i ddod â Thenantiaeth Brawf i ben.

128 – Cyhoeddi Hysbysiad Achos.

129 – Adolygu penderfyniadau i geisio meddiant ar breswylfa, lle ceisir meddiant ar sail ôl-ddyledion rhent.

133 – Dewis olynydd lle bo gan ddau aelod neu fwy o deulu tenant hawl i fod yn olynydd mewn tenantiaeth brawf.

136 – Cyhoeddi gwybodaeth am denantiaethau prawf y Cyngor.

137 – Ymgynghori â thenantiaid ynghylch Rheoli Tai.

143D – Codi Achos Meddiant i ddod â Thenantiaeth Isradd i ben.

143E – Cyhoeddi Hysbysiad Achos i geisio Meddiant o Breswylfa a ddaliwyd o dan Denantiaeth Isradd.

143F Adolygu penderfyniad i geisio meddiant ar breswylfa, lle ceisir meddiant ar sail ôl-ddyledion rhent.

143H – Dewis olynydd lle bo gan ddau aelod neu fwy o deulu tenant hawl i fod yn olynydd mewn tenantiaeth Isradd.

143M – Cyhoeddi Gwybodaeth am y Denantiaeth Isradd.

153A – Gwneud cais am Waharddeb i atal/rwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol.

153B – Gwneud cais am Waharddeb i atal/rwystro defnydd anghyfreithlon o safleoedd.

153D – Gwneud cais am Waharddeb i atal/rwystro torri amodau tenantiaeth.

157 – Cyflwyno cais i'r Llys am amrywio neu glirio gwaharddeb a gafwyd o dan adran 154A, 153B neu 153D o'r Ddeddf.

166 – Darparu cyngor a gwybodaeth i bobl yn y Sir yn unol â rhwymedigaethau'r Cyngor o dan yr adran hon.

167 – Prosesu Ceisiadau am Dai a dyrannu Llety Tai yn unol â Rhan VI o Ddeddf Tai 1996, a Pholisi Dyraniadau'r Cyngor.

168 – Cyhoeddi gwybodaeth am Gynllun Dyraniadau'r Cyngor.

171 – Erlyn pobl sy'n gwneud datganiadau ffug neu'n dal gwybodaeth yn ôl.

179 – Darparu cyngor a gwybodaeth i bobl yn y Sir am ddigartrefedd ac atal digartrefedd.

180 – Darparu grantiau, benthyciadau neu gymorth arall i sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â digartrefedd neu faterion cysylltiedig â digartrefedd.

181 – Cyflwyno Hysbysiad yn erbyn sefydliad gwirfoddol y mae'r Cyngor yn bwriadu adennill arian oddi wrtho.

184 – Gwneud ymholiadau ynghylch achosion o ddigartrefedd neu fygythiadau digartrefedd, penderfynu ar geisiadau yn unol â gofynion Rhan VII o'r Ddeddf, a hysbysu Ymgeiswyr am benderfyniad y Cyngor.

188 – Cyflawni dyletswydd y Cyngor i ddarparu llety dros dro i ymgeiswyr mewn achosion sy'n ymddangos yn flaenoriaeth, wrth ddisgwyl penderfyniad ynghylch y ddyletswydd sy'n ddyledus iddynt, a phŵer y Cyngor i ddarparu llety dros dro wrth ddisgwyl penderfyniad unrhyw adolygiad.

Cyflawni dyletswyddau'r Cyngor o dan adrannau 189, 192, 193 ac 195 o'r Ddeddf, yn unol â gofynion Rhan VII o'r Ddeddf.

198 – Cyfeirio achosion digartrefedd at awdurdod tai lleol arall.

200 – Cyflawni dyletswyddau'r Cyngor i ymgeiswyr digartref y mae eu hachosion yn cael eu hystyried ar gyfer atgyfeiriad i Awdurdod arall ac ymarfer pŵer y Cyngor i ddarparu llety dros dro wrth ddisgwyl penderfyniad ynghylch unrhyw adolygiad.

202 – Cwblhau Adolygiadau Digartrefedd.

204 a 204A – Amddiffyn unrhyw Apeliadau Llys Sirol sy'n codi o benderfyniadau digartrefedd y Cyngor.

206 – Cyflawni Swyddogaethau gan Awdurdodau Tai Lleol.

208 – Cyflawni Swyddogaethau: Lleoliadau y tu allan i'r Ardal.

209 – Cyflawni Swyddogaethau: trefniadau gyda Landlordiaid Preifat.

210 – Cyflawni Swyddogaethau: Addasrwydd Llety.

211 a 212 – Cyflawni dyletswyddau'r Cyngor ac ymarfer pwerau'r Cyngor i ddiogelu eiddo sydd ym meddiant pobl ddigartref a phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

213 – Ceisio caniatâd yr ymgeisydd a chyfeirio rhai materion sy'n ymwneud â phlant at y gwasanaethau cymdeithasol.

214 – Erlyn pobl sy'n gwneud datganiadau ffug, yn gwrthod rhoi gwybodaeth neu'n methu â datgelu newid yn eu hamgylchiadau.

Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996

A.13 Grantiau Adnewyddu: Cymeradwyo Ceisiadau.

A.18 Grantiau Rhannau Cyffredin: Cymeradwyo Ceisiadau.

A. 24 Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl: Cymeradwyo Ceisiadau.

A.28 Grantiau Tai Amlfeddiannaeth: Cymeradwyo Ceisiadau.

A.76 Awdurdodiad i roi Cymorth Atgyweirio Cartref ar ffurf grant neu ddarparu deunyddiau ar gyfer ymgymryd â gwaith atgyweirio, gwella neu addasu ar breswylfa.

A.81 ac 82 Pŵer i Gyflwyno Hysbysiadau Camau Gohiriedig.

A.84 Pŵer i adolygu Hysbysiad Camau Gohiriedig.

A.86 Anaddasrwydd fel Trigfan i Bobl: Pŵer i wella gweithdrefnau gorfodi.

A.87 Anaddasrwydd fel Trigfan i Bobl: Pŵer i newid ar gyfer Camau Gorfodi.

A.88 Awdurdodiad i adennill y tâl am Gamau Gorfodi.

Deddf Tai 2004

Llofnodi pob hysbysiad/trwydded ynghylch Safonau Tai.

Deddf Cyfraith Eiddo 1925

Dylai'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd**, a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** gychwyn y camau angenrheidiol i orfodi gwerthiant, gan gynnwys gwaredu'r eiddo.

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

A.112 Penderfynu Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i adnewyddu tai er mwyn gwneud preswylfeydd yn addas ar gyfer byw ynddynt.

A.113 Penderfynu Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i adnewyddu tai sy'n codi o rai hysbysiadau statudol.

A.114 Penderfynu Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i adnewyddu tai er mwyn darparu rhai cyfleusterau i bobl anabl.

A.115 Penderfynu Cymeradwyo ceisiadau am grantiau dewisol i adnewyddu tai.

A. 116 Cyhoeddi Hysbysiadau yn Cymeradwyo neu'n Gwrthod ceisiadau am grantiau i adnewyddu tai.

Penodi swyddogion awdurdodedig i ymarfer pwerau mynediad o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

DEDDF DIGOLLEDIAD TIR 1973

29 - Gwneud taliadau am golli cartref a thaliadau disgresiwn i denantiaid y Cyngor a adleoliwyd.

Deddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu 1977

Cychwyn achos cyfreithiol o dan Adran 6 o Ddeddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu 1977 am droseddau o dan Adran 1(2), 1(3) ac 1(3A) ac am Gyflwyno Hysbysiadau o dan Adran 7 o'r Ddeddf.

Mewn achosion difrifol a brys cyflwyno cais i'r Llys am warant i arestio'r troseddwr.

Pwerau Eraill

Cyflwyno Rhybudd i Ymadael i ddod â thrwyddedau a thenantiaethau heb eu diogelu i ben, a rhoi copïau o hysbysiadau yng ngofal yr Ymddiriedolwr Cyhoeddus lle bo hynny'n briodol.

Cyflwyno Rhybudd a Chodi Achos Meddiant i symud tresmaswyr o breswylfeydd sy'n eiddo i'r Cyngor.

Cyflwyno cais i'r Llys i orfodi gwarantau meddiant a gafwyd mewn perthynas â phreswylfeydd o eiddo'r Cyngor.

YR AMGYLCHEDD

Pwerau a ddirprwywyd i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd

Rheoli trefniadaeth gwasanaethau uniongyrchol technegol a gweithredol y Cyngor Sir, i'r graddau nad ydynt wedi'u lleoli mewn unrhyw adran arall. Penderfynu ar bob mater sy'n ymwneud ag Adran yr Amgylchedd o ddydd i ddydd.

Goruchwylio'r holl faterion gweithrediadol mewn perthynas â'r meysydd swyddogaethol canlynol:

- Ymgynghoriaeth
- Gwasanaethau Dylunio Proffesiynol
- Trafnidiaeth.
- Cynnal a Chadw Priffyrdd
- Cynnal a Chadw Adeiladau a Rheoli Asedau
- Cynnal a Chadw Tiroedd
- Rheoli Gwastraff
- Draenio Tir
- Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy
- Diogelu'r Arfordir
- Mapio Llifogydd
- Glanhau Strydoedd
- Gwasanaethau Bwrdeistrefol
- Cynllunio
- Rheoli Adeiladu
- Cynlluniau Argyfwng
- Mynwent Rhydaman
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Enwebu swyddogion a awdurdodwyd i lofnodi dogfennau, tystysgrifau, llythyrau, anfonebau, gorchmynion a phob gohebiaeth a dogfennaeth ariannol a gweinyddol arall, yn unol â'r telerau a bennir gan y Cyfarwyddwr.

Tendrau Blynyddol

Sicrhau prisiau yn y fan a'r lle ar gyfer darparu gwasanaethau pryd y bernid y gallai hynny fod o fantais i'r Awdurdod.

Cwm Environmental Limited

Ymarfer y swyddogaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt o dan Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni.

Pwerau a Ddirprwywyd i'r Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg

Bod yn Rheolwr Traffig yr Awdurdod

Penodi swyddogion a awdurdodwyd i benderfynu ar heriau anffurfiol a sylwadau ffurfiol mewn ymateb i gyhoeddi Hysbysiadau Torri Amodau Parcio a Hysbysiadau i Berchnogion.

Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar y Stryd ac oddi ar y Stryd

Cychwyn y broses statudol ar gyfer gwneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar y Stryd ac oddi ar y Stryd.

Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro

Awdurdodi gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig dros dro, yn amodol ar gymeradwyaeth yr aelodau lleol.

Hawlenni Parcio i Breswylwyr a Hawlenni Mynediad

Llofnodi a dyroddi Hawlenni Parcio i Breswylwyr a hawlenni mynediad.

Caffael Tir ar gyfer Cynlluniau Isadeiledd Trafnidiaeth

Cyfarwyddo'r Pennaeth Adfywio i ddechrau trafodaethau ar gyfer prynu tir y mae ei angen ar gyfer cynlluniau isadeiledd trafnidiaeth ar yr amod bod y cynllun yn rhan o Gynllun Trafnidiaeth Leol y Cyngor, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol neu'n rhan o raglen a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Cais gan Gymdeithasau a'r Cyhoedd i wneud Defnydd Rhannol o Faes Parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod ar gyfer Gweithgareddau Eraill

Awdurdodi, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r aelod(au) lleol, ystyried ceisiadau a dderbynnir ar gyfer gwneud defnydd rhannol arall dros dro o feysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor Sir.

Awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r swyddogion a enwebwyd ganddo/ganddi i gyflwyno gwybodaeth a chyfarwyddo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gynnal achos yn Llys yr Ynadon ar ran y Cyngor Sir mewn perthynas â throseddau honedig o dan Orchymyn Cyngor Sir Caerfyrddin (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Llanelli)(Newidiad) 2000 a Gorchymyn Cyngor Sir Caerfyrddin (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Caerfyrddin)(Newidiad) 2000.

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Llunio Panel Apêl o'r Swyddogion ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Is-adrannau Cyfreithiol, Addysg a Thrafnidiaeth a Pheirianneg) er mwyn gwrando a phenderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mynediad ar dir ar gyfer arolygon mewn cysylltiad â Chynlluniau Isadeiledd Trafnidiaeth

Awdurdodiad i gyflwyno hysbysiadau mynediad o dan Adran 289 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn gwneud gwaith tirfesur (yn cynnwys tyllau turio a phyllau prawf) mewn cysylltiad â datblygu cynlluniau isadeiledd trafnidiaeth.

Caffael Tir ar gyfer Cynlluniau Priffyrdd, Cynnal a Chadw Pontydd a Gwrthgloddiau Adferol

Cyfarwyddo'r **Pennaeth Adfywio** i ddechrau trafodaethau ar gyfer prynu tir y mae ei angen ar gyfer cynlluniau priffyrdd, cynnal a chadw pontydd, a gwrthgloddiau adferol, ar yr amod bod y cynllun yn rhan o raglen a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Mynediad ar dir ar gyfer arolygon mewn cysylltiad â chynlluniau Priffyrdd, cynnal a chadw Pontydd a gwrthgloddiau adferol

Cyflwyno hysbysiadau mynediad o dan Adran 289 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn gwneud gwaith tirfesur (yn cynnwys tyllau turio a phyllau prawf) mewn cysylltiad â datblygu cynlluniau priffyrdd, cynnal a chadw pontydd a gwrthgloddiau adferol.

Deddf Priffyrdd (1980), Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, Deddf Draenio Tir, Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Rhif Cychwyn 1) (Cymru) 2006, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005.

Pwerau i ddelio â'r holl bwerau statudol o dan wahanol adrannau o'r Deddfau uchod.

Caffael tir ar gyfer gwneud mân welliannau, cynnal a chadw pontydd, gwrthgloddiau adferol a chynlluniau diogelwch ffyrdd

Cyfarwyddo'r **Pennaeth Adfywio** i brynu lleiniau bychain o dir y mae eu hangen ar gyfer gwneud mân welliannau i briffyrdd, cynnal a chadw pontydd, gwrthgloddiau adferol a chynlluniau diogelwch ffyrdd hyd at werth o £5,000 (yn amodol ar y prisiad), i'w hariannu o'r gyllideb cynnal a chadw refeniw.

Deddf Priffyrdd 1980 Adran 151

Awdurdod dirprwyedig i orfodi darpariaethau adran uchod y Ddeddf.

CEFN GWLAD, HAMDDEN A MYNEDIAD

Dirprwyir yr holl bwerau a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â llwybrau troed a llwybrau ceffylau i **Gyfarwyddwr yr Amgylchedd** a'r **Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd** (gan gynnwys pwerau yn ymwneud â gorfodi a mynediad i dir), gan gynnwys y pwerau a'r dyletswyddau perthnasol hynny sy'n codi o dan y deddfiadau canlynol:

Deddf Cefn Gwlad 1968
Deddf Priffyrdd 1980
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
Deddf Llwybrau Beiciau 1984
Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

Deddf Hawliau Tramwy 1990
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Deddf Traffig Ffyrdd 1988
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Pwerau a Ddirprwywyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

Codi tâl am gasglu gwastraff cartref a gwastraff masnachol.

Pwerau dirprwyedig mewn ymgynghoriad â'r **Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd**, i bennu taliadau am gasglu gwastraff cartref a gwastraff masnachol fel y'u disgrifir yn rheoliad 4 ac atodlen 2 a rheoliad 6 a rheoliad 4 o Reoliadau Gwastraff Rheoledig 1992.

Baw Cŵn ar Balmentydd

Pwerau dirprwyedig i weithredu Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 o dan delerau Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Pwerau i fynd i'r afael â sbwriel a gwastraff ar dir

Pwerau dirprwyedig i ymchwilio a symud ymlaen gydag erlyniadau o dan Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn mynd i'r afael â sbwriel a gwastraff ar dir o dan Adrannau 33, 34, 46, 59, 60, 73, 88, 89, 90, 91, 92, 94, a 99 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, Adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, Adrannau 22(3) a 23 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, Adran 78 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936, Adran 34 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1961, Adrannau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8 o Ddeddf Amwynder Gwaredu Sbwriel 1978, Adran 5(9) o'r Ddeddf Sbwriel, Adrannau 148 ac 149 o'r Ddeddf Priffyrdd.
Atodlen 3A, paragraff 7(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Pwerau i fynd i'r afael â sbwriel, gwastraff, graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon

Pwerau Dirprwyedig i ymchwilio a symud ymlaen gydag erlyniadau o dan:

Adran 71 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Adrannau 5 a 6 o Ddeddf Rheoli Llygredd (newidiad) 1989.

Adrannau 43, 45, 47, 48, 49, 55 a 56 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Adrannau 137, 138, 139, 140, 143, 143, 154, 169, 170, 171, a 180 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Adran 4 o Ddeddf Atal Difrod gan Blâu 1949.

Deddf Cymdogaeth a'r Amgylchedd

Rhan 2 Cerbydau Niwsans - Adrannau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 ac 17.
Rhan 3 Sbwriel a Gwastraff - Adrannau 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26 a 27.
Rhan 4 Graffiti a Difwyno arall - Adrannau 28, 29, 30, 31, 32, 33 a 34.
Rhan 5 Gwastraff - Adrannau 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52 a 53.
Rhan 6 Cŵn - Adrannau 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67 a 68.
Rhan 9 Amrywiol - Adrannau 96, 97, 98, 99 a 100.

Gwaith heb ei Gyflawni

Lle parhawyd i dorri'r gyfraith yn dilyn cyflwyno Hysbysiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwaith, a bod cyfnod yr hysbysiad hwnnw wedi dod i ben, dirprwyo pwerau i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff a'r Rheolwr Gofal Strydoedd gychwyn a threfnu gwneud y gwaith sydd heb ei gyflawni, hyd at y terfyn ariannol a bennwyd yn Rheolau Sefydlog y Cyngor sy'n weithredol ar hyn o bryd.

Is-ddeddfau

Awdurdod dirprwyedig i orfodi'r deddfau lleol canlynol:

Deddfau Lleol Rhanbarth Caerfyrddin 1994 ar gyfer Rheoleiddio Cŵn ar dir o flaen y traeth yn Llansteffan;
Deddfau Lleol Rhanbarth Caerfyrddin 1996 ar gyfer Rheoleiddio Cŵn ar lan y môr yn Llansteffan.

Pwerau a Ddirprwywyd i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd

Dirprwyir y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau'r Cyngor o ran cynllunio a rheoli adeiladu i **Gyfarwyddwr yr Amgylchedd** a'r **Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd**, gan gynnwys yr holl swyddogaethau a ddisgrifir isod (ond heb eu cyfyngu iddynt):

Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio

Mae gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd bwerau dirprwyedig i ddelio gyda phenderfynu ar bob cais cynllunio (ac eraill cysylltiedig â chynllunio), swyddogaethau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â Chynllunio Gwlad a Thref fel y'u cynhwysir yn y Deddfau canlynol (fel y'u diwygiwyd lle bo'n briodol), a chan gynnwys yr holl ddeddfwriaeth sy'n israddol iddynt:-

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990
* Deddf Cynllunio a Digolledu 2004
*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
*Deddf Dyfed 1987

Y canlynol yw'r eithriadau:-

- Ceisiadau lle mae'r Aelod Lleol yn cyflwyno cais i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, gan wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr ymgynghoriad ac amlinellu'r rhesymau cynllunio perthnasol;

- Ceisiadau a gyflwynir gan, neu ar ran, Cynghorwyr sy'n gwasanaethu neu eu teulu agos neu weithwyr y Gwasanaeth Rheoli Datblygu neu eu teuluoedd agos;

- Ceisiadau a gyflwynir gan, neu ar ran, y Cyngor neu sy'n ymwneud â thir ym mherchnogaeth y Cyngor a lle bydd y Cyngor yn derbyn derbyniad sylweddol o ganlyniad i'r datblygiad.

- Mân geisiadau lle ceir tri llythyr o wrthwynebiad i'r cynnig gan wahanol aelwydydd neu fusnesau, neu ddeisebau â thri llofnod neu fwy gan wahanol aelwydydd neu fusnesau, a lle ystyrir bod y rhesymau dros wrthwynebu yn ystyriaethau cynllunio perthnasol o ran y cynnig ac argymhelliad y swyddog yw cymeradwyo'r cais, ac eithrio:

    - lle'r oedd mater(ion) perthnasol wedi cael ei drafod/eu trafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam amlinellol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais amlinellol a'r cais (materion a gadwyd yn ôl) manwl;

- lle’r oedd y Pwyllgor wedi trafod mater(ion) perthnasol yn ystod y cam cais cynllunio gwreiddiol ac nad oedd unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau perthnasol rhwng y cais gwreiddiol a’r cais Adran 73 (dileu/amrywio);
- lle'r oedd gwrthwynebiadau parhaus yn dod i law ynghylch datblygiad oedd ar waith a gawsai ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd yn codi unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol newydd.

• Ceisiadau mawr lle ceir saith llythyr o wrthwynebiad i'r cynnig gan wahanol aelwydydd neu fusnesau neu ddeisebau â saith llofnod neu fwy gan wahanol aelwydydd neu fusnesau, lle ystyrir bod y rhesymau dros wrthwynebu yn ystyriaethau cynllunio perthnasol o ran y cynnig ac argymhelliad y swyddog yw cymeradwyo'r cais, ac eithrio:

- lle'r oedd mater(ion) perthnasol wedi cael ei drafod/eu trafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam amlinellol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais amlinellol a'r cais (materion a gadwyd yn ôl) manwl;
- lle’r oedd y Pwyllgor wedi trafod mater(ion) perthnasol yn ystod y cam cais cynllunio gwreiddiol ac nad oedd unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau perthnasol rhwng y cais gwreiddiol a’r cais Adran 73 (dileu/amrywio);
- lle'r oedd gwrthwynebiadau parhaus yn dod i law ynghylch datblygiad oedd ar waith a gawsai ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd yn codi unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol newydd.
- Ceisiadau y mae’r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd o’r farn y dylai’r Pwyllgor Cynllunio ymdrin â nhw.

Nid yw'r eithriadau rhestredig uchod yn berthnasol i'r ceisiadau a/neu'r caniatadau canlynol:

Hysbysiadau Ymlaen Llaw
Ceisiadau sy'n ymwneud â Gorchymyn Datblygu Lleol
Diwygiadau Ansylweddol
Cyflawni Amodau
Addasu / Cyflawni Rhwymedigaethau Cynllunio
Caniatâd Hysbysebu
Caniatâd Adeilad Rhestredig
Caniatâd Ardal Gadwraeth
Hysbysiadau Gwaredu Perthi
Gwaith Coed mewn Ardal Gadwraeth
Gwaith Gorchmynion Diogelu Coed
CLEUD (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad sy'n Bodoli)
CLOPUD (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig)

Tystysgrifau Datblygiad Arall Priodol

Hysbysiadau Llinellau Uwchben

Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael gwybod am yr holl eithriadau cyn belled â'u bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r cynllun dirprwyo.

At ddibenion y protocol hwn, “Datblygiadau mawr” yw'r rhai a ddiffiniwyd yn erthygl 2(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu), 2012, sef:-

(a) datblygiad mwynau

(b) datblygiad gwastraff

(c) 10 neu fwy o breswylfeydd, neu mae'r safle dan sylw yn 0.5 hectar neu'n fwy

(d) adeilad sydd â 1000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr

(e) datblygiad ar dir 1 hectar neu fwy

Mae "Mân ddatblygiadau” at ddibenion y protocol hwn i gael eu diffinio fel eu bod yn cwmpasu pob datblygiad arall.

Penderfynu ar Geisiadau Rheoliadau Adeiladu

Mae gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd bwerau dirprwyedig i ymdrin â'r broses o benderfynu ar bob cais, swyddogaeth a gweithdrefn rheoliadau adeiladu sy'n ymwneud â'r Deddfau canlynol, gan gynnwys yr holl is-ddeddfwriaeth:
Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010

Gweinyddiaeth

Ymgymryd â chyhoeddusrwydd ac ymgynghoriadau statudol ac anstatudol.

Newid neu ychwanegu rhesymau dros wrthod ceisiadau ac amodau at geisiadau a gymeradwywyd mewn Pwyllgor gan ddilyn yr un perwyl yn gyffredinol â’r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio cyn rhoi’r hysbysiad o’r penderfyniad.

Cyhoeddi hysbysiadau penderfyniadau cynllunio.

Cyhoeddi hysbysiadau o benderfyniadau ynghylch rheoliadau adeiladu.

Ymateb i Orchmynion Hysbysiadau Gwaredu Perthi.

Cyhoeddi Gorchmynion Cadw Coed a Gorchmynion Cadw Adeiladau.

Cyflwyno gorchmynion cadw coed a hysbysiadau cadw adeiladau brys ar ôl ymgynghori â’r **Aelod Cabinet** priodol ac aelod(au) y ward leol.

Pennu caniatâd i wneud gwaith ar goed sy'n destun Gorchmynion Cadw Coed (yn cynnwys gwaith ar goed mewn Gorchymyn Cadwraeth).

Prosesu materion trefniadol mewn perthynas â cheisiadau i adolygu cyflwr gweithiau mwynau.

Cymeradwyo manylion mân ddatblygiadau o fewn gweithiau mwynau o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Penderfynu ar geisiadau am farn sgrinio o dan reoliadau 6 ac 8 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017.

Penderfynu ar geisiadau am farn gwmpasu o dan reoliad 14 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

Ymgynghori ynghylch ceisiadau o dan Adran 38 o Ddeddf Trydan 1989.

Y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fydd yn gyfrifol am benodi syrfëwr annibynnol wrth ddyfarnu ar anghytundebau mewn perthynas â Deddf Waliau Cydrannol 1996.

Cynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol i honiadau ynghylch datblygiad heb ei awdurdodi, a chychwyn unrhyw gamau gorfodi priodol o dan Ran VII o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu

Ymrwymo i rwymedigaethau cynllunio sy'n rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a chyd-drafod, addasu neu gyflawni'r cyfryw rwymedigaethau.

Gwrthod ceisiadau lle mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu eu cymeradwyo yn amodol ar gytundeb cyfreithiol ac nad yw cytundeb o'r fath wedi'i lofnodi o fewn 12 mis i ddyddiad penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio.

Penderfynu ar geisiadau a dderbyniwyd am CLEUD neu CLOPUD.

Penderfynu ar geisiadau am ddiwygiadau ansylweddol

Penderfynu ar geisiadau am gyflawni amodau cynllunio

Penderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Hysbysebu

Penderfynu ar geisiadau am dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol

Penderfynu ar geisiadau Adeilad Rhestredig

Penderfynu ar ganiatâd mewn Ardaloedd Cadwraeth

Ystyried hysbysiadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am ddatblygiadau a ganiateir gan yr awdurdod cynllunio lleol a chyhoeddi'r hysbysiadau angenrheidiol.

Penderfynu ar geisiadau am sgrinio/cwmpasu o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

Llunio ymatebion i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) 2016

Llunio ymatebion i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008

Ystyried ac ymateb i ymholiadau cyn ymgeisio statudol o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau Cyn-ymgeisio) (Cymru) 2016.

Cyhoeddi camau gorfodi angenrheidiol a chamau eraill yn ymwneud â gorfodi deddfwriaeth gynllunio ac adeiladau rhestredig.

Cynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol i honiadau ynghylch datblygiad heb ei awdurdodi, a chychwyn unrhyw gamau gorfodi priodol o dan Ran VII o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.

Cynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol i gwynion mewn perthynas â Pherthi Uchel a chyhoeddi unrhyw hysbysiadau adfer priodol o dan Ran 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Penderfynu ar geisiadau Gorchmynion Cadw Coed a wneir o dan Adrannau 198 a 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyhoeddi Hysbysiadau Cadw Coed

Cyhoeddi Hysbysiadau Diogelu Adeilad

Cyhoeddi Hysbysiadau Rheoliadau Perthi

Cyhoeddi newidiadau i'r Gofrestr Tir Comin.

Cytuno ar fân newidiadau i Gynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin neu unrhyw gynllun dilynol nad ydynt yn golygu newid sylfaenol i strategaeth waelodol y cynllun fel y'i cytunwyd gan y Cyngor Sir. Awdurdod i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd newid y polisïau lle mae gwallau cartograffig, gwallau argraffu, gwrthwynebiadau neu newidiadau wedi'u gadael allan er mwyn adlewyrchu polisïau a chanllawiau sy'n deillio o Lywodraeth Cymru.

Awdurdod i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd benodi swyddogion ac aelodau etholedig i ymarfer hawl mynediad i dir, fel y penderfynwyd o dan:

Adran 196 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
Adrannau 324 a 325 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
Adran 11 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991;
Adran 88 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardal Gadwraeth) 1990;
Adran 95 o Ddeddf Adeiladu 1984.

Cymryd camau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Rhifo ac enwi strydoedd o dan ddarpariaethau Adrannau 17, 18 a 19 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925, Adrannau 64 a 65 o Ddeddf Trefi a Chymalau Gwelliant 1847 a darpariaethau perthnasol Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875, a fydd yn cynnwys pŵer i roi enwau ar strydoedd cyhoeddus a sicrhau bod enwau a/neu rifau adeiladau yn cael eu harddangos yn briodol.

Gweithredu fel Swyddog Penodi at ddibenion Deddf Waliau Cydrannol ac ati 1996.

Deddf Cyfraith Eiddo 1925

Dylai'r **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd** a **Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** gychwyn y camau angenrheidiol i orfodi gwerthiant, gan gynnwys gwaredu'r eiddo.

Rheoliadau Adeiladu

Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ac i'r Rheolwr Rheoli Adeiladu benderfynu ar yr holl ddyletswyddau yn ymwneud â rheoliadau adeiladu, gan gynnwys penderfynu ar geisiadau rheoliadau adeiladu, gorfodi a mesurau yn ymwneud ag adeiladau peryglus. Awdurdodiad i lofnodi'r hysbysiadau statudol angenrheidiol.

Rheoliadau Perthi

Cyhoeddi Hysbysiad Cadw Perthi a lle bo'n briodol, ymgynghori â'r Aelod(au) lleol, y Cyngor Cymuned, Comisiwn Cefn Gwlad Cymru ac Archaeoleg Cambria.

Cyhoeddi a gorfodi Hysbysiadau Ailblannu Perthi yn unol â chanllawiau cytunedig y Cyngor Sir.

Caniatáu clirio perth yn unol â'r gofynion statudol.

Pwerau a Ddirprwywyd i Reolwr y Gwasanaethau Bwrdeistrefol

Mynwent Rhydaman

Gweithredu fel Swyddog Priodol yr Awdurdod o dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Chofrestrydd Claddedigaethau.

ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT

CYFARWYDDWR

Ymarfer yr holl bwerau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor Sir fel Awdurdod Lleol.

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yw'r Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 2004, ac ef/hi sy'n gyfrifol am gydlynu a goruchwylio'r gwaith o hyrwyddo cydweithrediad lleol rhwng y Cyngor a'r partneriaid a'r cyrff perthnasol eraill, a hefyd am gyhoeddi cynlluniau sy'n cyflwyno strategaeth y Cyngor yng nghyswllt plant a phobl ifanc.

Yn ogystal, dirprwyir cyfrifoldebau gweithrediadol am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn benodol oddi wrth Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant.

Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005
Awdurdod dirprwyedig i gyflwyno sylwadau ar ran y Cyngor, gan weithredu yn ei gapasiti fel awdurdod cyfrifol.

Cronfeydd Ymddiriedolaethau Elusennol

Mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, penderfynu ar y ceisiadau a ddaw i law am gymorth ariannol o Gronfeydd Ymddiriedolaethau Elusennol a weinyddir gan yr Awdurodod ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Cau Ysgolion
Hysbysiad Cau
Ymdrin â'r ysgolion hynny nad oes ganddynt ddim disgyblion ar eu cofrestr ar ddyddiad y cyfrifiad statudol ym mis Ionawr ("ysgol fach") a bod y cyfryw ysgolion yn destun hysbysiad cau ar unwaith. (Penderfyniad y Cyngor Sir ar 15 Ebrill 2014).

PENNAETH CWRICWLWM A LLESIANT

Cyfiawnder ieuenctid yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Cymorth Ieuenctid o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 – darpariaeth, sicrhau darpariaeth, neu gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid.

Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

PENNAETH Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

Cynllun Rheoli Ysgolion yn Lleol

Trosglwyddo cyllid o fewn y gyllideb addysg er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun RhYLl yn ogystal â Rheoliadau a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Ad-drefnu Ysgolion – Trafod Gweddill Ariannol Ysgolion sy'n Cau

Penderfynu a ddylid dyrannu peth cyllid ychwanegol i ysgolion newydd er mwyn adlewyrchu mantais y gweddill ariannol sydd gan ysgolion sy'n cau yn sgil ad-drefnu.

Rhiant-lywodraethwyr

Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol Rhiant-lywodraethwyr a phennu'r trefniadau ar gyfer yr etholiadau.

Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig

Awdurdodi Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â rheoliadau statudol.

Prydau Bwyd a Llaeth Ysgol am Ddim

Penderfynu ar geisiadau am Brydau Bwyd a Llaeth am Ddim yn yr Ysgol yn unol â Pholisïau Cenedlaethol a Pholisïau'r Cyngor.

Cymorth Ariannol

Darparu cymorth ariannol i blant a theuluoedd mewn angen o dan Ran 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

PENNAETH MYNEDIAD I ADDYSG

Derbyn Disgyblion i Ysgolion

Ymgymryd â rôl Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd.

Gwaredu Safleoedd ac Adeiladau Ysgol Diangen

Cyfarwyddo'r Pennaeth Adfywio i waredu safleoedd ac adeiladau ysgol diangen ar ôl cau ysgolion, yn unol â'r polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor.

Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

Awdurdod i bennu'r blaenoriaethau mwyaf priodol o ran prosiectau moderneiddio ysgolion yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd i'w cyflwyno o dan Raglenni Cyllid Amlinellol Band A a Band B, yn dilyn trafodaeth bellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. (Band A – Bwrdd Gweithredol 20/06/2016), (Band B – Bwrdd Gweithredol 18/12 2017)

PENNAETH Y GWASANAETHAU PLANT

Amddiffyn Plant

Cychwyn Achosion Gofal a chamau cyfreithiol eraill o dan Ddeddf Plant 1989.

Awdurdodi cadw plentyn neu berson ifanc mewn llety caeth am gyfnod o hyd at 72 awr, o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989.

Mabwysiadu

Bod yn Wneuthurwr Penderfyniadau Asiantaeth y Cyngor yng nghyswllt cymeradwyo mabwysiadwyr, lleoli plant ar gyfer eu mabwysiadu, a pharu plant â mabwysiadwyr.

Sicrhau bod cynrychiolaeth briodol ar y Panel Mabwysiadu Rhanbarthol mewn ymgynghoriad â'r Cabinet ac awdurdodau partner.

Maethu

Bod yn Wneuthurwr Penderfyniadau Asiantaeth y Cyngor mewn perthynas â chymeradwyo a dadgofrestru gofalwyr maeth.

Adolygu a phenderfynu ar lefel y cynnydd blynyddol yn y lwfansau llety sydd i'w talu i ofalwyr maeth, yn unol â gweithdrefnau a rheoliadau ariannol y Cyngor.

Plant sy'n derbyn gofal

Lleoli Plant sy'n derbyn gofal y tu allan i Sir Gaerfyrddin a/neu gyda darparwr heblaw'r Awdurdod Lleol, lle bo hynny'n briodol, a darparu ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig.

Cartrefi Plant

Sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni, fel sy'n ofynnol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Absenoldeb Disgyblion o'r Ysgol

Cychwyn achosion, a chynrychioli'r Cyngor mewn erlyniadau mewn Llysoedd Ynadon, mewn perthynas ag absenoldeb disgyblion o'r ysgol.

Cyflogi Plant

Trwyddedu cyflogi plant.

Penderfynu ar geisiadau a dderbyniwyd am grantiau dillad.